RHIF YMCHWIL CYMDEITHASOL:
52/2018
DYDDIAD CYHOEDDI:
20/09/2018

# Gwerthusiad o Weithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar

© Hawlfraint y Goron
ISBN digidol 978-1-78964-071-7

Gwerthusiad o Weithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar

NFER

Robert Smith, Caroline Sharp, Jo Morrison

Adroddiad Ymchwil Llawn: Smith, R. Sharp, C. Morrison, J. (2018). Gwerthusiad o Weithredu'r Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar Caerdydd: Llywodraeth Cymru, GSR adroddiad rhif 52/2018.
Ar gael yn: https://gov.wales/statistics-and-research/evaluation-implementation-early-years-pupil-deprivation-grant/?lang=cy

Safbwyntiau'r ymchwilydd a fynegir yn yr adroddiad hwn ac nid dyma o reidrwydd yw safbwyntiau Llywodraeth Cymru

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â:
David Roberts
Is-adran Ymchwil a Gwybodaeth Gymdeithasol
Llywodraeth Cymru
Sarn Mynach
Cyffordd Llandudno
LL31 9RZ
0300 062 5485
David.Roberts@llyw.cymru

## Tabl cynnwys

Rhestr o dablau....2
Rhestr termau....3
Diolchiadau....4
1. Crynodeb Gweithredol....5
2. Cyflwyniad/Cefndir....12
3. Methodoleg....18
4. Canfyddiadau....20
5. Enghreifftiau o arfer gorau sy'n dod i'r amlwg....45
6. Potensial ar gyfer gwerthuso effaith yn y dyfodol....52
7. Trafodaeth a chasgliad....59
8. Cyfeiriadau....64
Atodiad 1: Arolwg o leoliadau blynyddoedd cynnar....65
Atodiad 2: Yr ymweliadau astudiaethau achos....76

**Rhestr o dablau**


Tabl 1: Beth yw eich dealltwriaeth o ddibenion y GADBC? .......... 24
Tabl 2: Dysgu plant, monitro a hyfforddiant staff .......... 25
Tabl 3: Adnoddau a chysylltiadau ag asiantaethau eraill .......... 26
Tabl 4: Pa grwpiau wnaethoch chi eu targedu? .......... 28
Tabl 5: Ffynonellau o gymorth ac arweiniad a ddefnyddiwyd .......... 36
Tabl 6: Beth fyddech chi'n ei ddweud fu prif fanteision y GADBC? .......... 39
Tabl 7: Pa ganlyniadau yr ydych yn gobeithio eu cyflawni drwy ddefnyddio'r GADBC? .......... 54
Tabl 8: Sut ydych yn mesur effaith y dulliau yr ydych wedi'u gweithredu ar ganlyniadau plant? .......... 55
Tabl 9: Monitro allanol y GADBC .......... 55

**Rhestr termau**

| | |
|---|---|
| GADBC | Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar |
| CARh | Consortia Addysg Rhanbarthol |
| ALl | Awdurdod Lleol |
| GAD | Grant Amddifadedd Disgyblion |
| CGY | Cynllun Gwella Ysgol |
| CDS | Cynllun Datblygu Ysgol |
| e-FSM | Cymwys i gael prydau ysgol am ddim |
| AYBC | Athrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar |
| CALU | Cynorthwyydd Addysgu Lefel Uwch |
| CA | Cynorthwyydd Addysgu |
| AB | Addysg Bellach |
| SGA | Sefydliad Gwaddol Addysg |
| AGGCC | Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru |

## Diolchiadau

Hoffai'r tîm ymchwil ddiolch i holl staff y lleoliadau blynyddoedd cynnar a'r ysgolion a gymerodd ran yn yr arolwg a'r astudiaethau achos. Hoffem hefyd ddiolch i'r cynrychiolwyr o'r consortia rhanbarthol a'r awdurdodau lleol a gymerodd ran mewn cyfweliadau.

Rydym yn ddiolchgar am gyfraniadau'r bobl a ganlyn i'r tîm gwerthuso: Susan Bamford a Lowri Randell-Evans o NFER a Sue Davies ac Enfys Llwyd fel swyddogion gwaith maes a chynghorwyr i dîm y prosiect.

Hefyd, mae ein diolch yn ddyledus i Lywodraeth Cymru am gomisiynu'r gwaith a darparu sylwadau defnyddiol ar yr adroddiad drafft.

# 1. Crynodeb Gweithredol

1.1 Cyflwynwyd y Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GADBC) yn 2015/16 i wella canlyniadau ar gyfer dysgwyr o deuluoedd ar incwm isel sy'n derbyn addysg blynyddoedd cynnar y Cyfnod Sylfaen am 10 awr neu fwy yr wythnos mewn lleoliad cymeradwy. Y bwriad yw goresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu llawn botensial. Dyrannwyd y GADBC ar y sail y byddai darparwyr addysg gynnar mewn lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir (gan gynnwys ysgolion, meithrinfeydd, cylchoedd chwarae a gwarchodwyr plant) yn cael £300 am bob dysgwr cymwys.

1.2 Cynhaliwyd y gwerthusiad cynnar hwn o'r broses yn ystod ail flwyddyn gweithredu'r GADBC. Ei brif nod oedd gwerthuso sut y gweithredir y GADBC gan ymarferwyr ar draws y gwahanol leoliadau, a yw'n cael ei weithredu fel y bwriadwyd ac i nodi unrhyw arfer gorau sy'n dod i'r amlwg.

1.3 Cynhaliwyd y gwaith maes ar gyfer yr astudiaeth rhwng Gorffennaf 2016 a Mai 2017. Defnyddiwyd tri phrif ddull:

- arolwg ar-lein a anfonwyd at sampl derfynol o 1,526 o leoliadau blynyddoedd cynnar, y cysylltwyd â hwy gan dîm yr astudiaeth; o'r rhai y cysylltwyd â hwy, roedd 376 yn nodi eu bod yn derbyn y GADBC a gwnaethant ymateb i'r arolwg yn ystod y cyfnod gweinyddu (18 Ionawr hyd 3 Mawrth 2017)
- cyfweliadau gyda'r arweinwyr polisi ym mhob un o'r pedwar Consortiwm Addysg Rhanbarthol (CARh) a thrafodaethau gyda phedwar swyddog mewn tri Awdurdod Lleol (ALlau) (swyddog â chyfrifoldebau strategol ynghyd â swyddog â chyfrifoldebau gweithredol mewn un ALl, ac un swyddog â rolau gweithredol yn y ddau ALl eraill)
- cyfweliadau astudiaethau achos mewn 20 lleoliad a ddewiswyd i gynrychioli amrywiaeth o wahanol fathau o leoliad mewn lleoliadau ledled Cymru drwy gynnal cyfweliadau gydag 20 pennaeth/pennaeth lleoliad (wyth pennaeth ysgolion cynradd, chwe phennaeth ysgolion meithrin a chwe phennaeth lleoliadau nas cynhelir) a 17 o staff eraill (saith o athrawon mewn ysgolion cynradd, chwech o athrawon mewn meithrinfeydd a gynhelir, a phedwar aelod o staff mewn lleoliadau nas cynhelir).

1.4 Nid oedd gan y tîm ymchwil fanylion yr holl leoliadau nas cynhelir sy'n derbyn y GADBC, ac felly mae'n debygol nad yw lleoliadau nas cynhelir yn cael eu cynrychioli'n llawn yn y gwerthusiad hwn

**Canfyddiadau allweddol**

*Deall a defnyddio y GADBC*

1.5 Archwiliodd yr astudiaeth hon sut roedd rhanddeiliaid (yn enwedig staff o CARh, ALlau a lleoliadau blynyddoedd cynnar) yn deall amcanion y GADBC a sut roeddent yn defnyddio'r arian y mae'n ei ddarparu.

1.6 Nododd bron pob lleoliad (94 y cant) brif nod y GADBC yn gywir, sef 'I gefnogi plant o aelwydydd incwm isel i gyflawni eu potensial'. Nododd lleiafrif nodau eraill nad ydynt yn ddibenion bwriadedig y GADBC, sef: cefnogi plant sy'n syrthio ar ei hôl hi (13 y cant), cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (12 y cant) a darparu cyllid ychwanegol ar gyfer eu lleoliadau (deg y cant).

1.7 Nododd lleoliadau eu bod yn defnyddio'r GADBC at y dibenion a argymhellir gan ganllawiau Llywodraeth Cymru, yn enwedig cefnogi datblygiad iaith cynnar plant (94 y cant); hyfforddiant staff (87 y cant); prynu adnoddau dysgu newydd (88 y cant); gwaith ar systemau (78 y cant); a chymorth rhianta (75 y cant).

1.8 Roedd rhan fwyaf y lleoliadau wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau cymorth ac arweiniad, yn enwedig yr amrywiaeth o ganllawiau a gynhyrchir gan Lywodraeth Cymru ar sut i ddefnyddio'r GADBC.

1.9 Nododd lleoliadau mai prif fanteision y GADBC oedd: gallu dechrau cefnogi plant difreintiedig flwyddyn yn gynharach a'i fod yn hyblyg mewn perthynas â'u hanghenion (h.y. gallai lleoliadau benderfynu sut orau i'w ddefnyddio).

1.10 Y brif anfantais a nodwyd gan leoliadau oedd bod gwerth y GADBC yn rhy fach, yn enwedig ar gyfer lleoliadau gyda niferoedd isel o blant cymwys. I liniaru hyn, mewn rhai achosion roedd ALlau yn cyfuno eu hadnoddau i ddarparu hyfforddiant (arfer sy'n cael ei gefnogi gan rai o'r lleoliadau nas cynhelir, ond nid pob un). Dywedodd ychydig o leoliadau fod yr ansicrwydd ynglŷn â bodolaeth a lefel eu dyraniadau GADBC yn y dyfodol yn cyfyngu ar eu gallu i flaen-gynllunio. Dywedodd rhai lleoliadau nas cynhelir nad oedd eu ALl wedi dosbarthu'r GADBC yn uniongyrchol i'r lleoliadau, ac y byddai wedi bod yn well ganddynt pe byddai'r awdurdodau wedi gwneud hynny.

1.11 Ychydig yn unig o wahaniaethau ystadegol arwyddocaol oedd yna rhwng lleoliadau o ran eu hymatebion i'r arolwg, er bod lleoliadau nas cynhelir wedi defnyddio llai o ffynonellau o arweiniad a chymorth.

*Enghreifftiau o arfer gorau sy'n dod i'r amlwg*

1.12 Mae arweiniad Llywodraeth Cymru 'Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar?' (Dysgu Cymru, 2015) yn cefnogi ymarferwyr yn eu defnydd o arian GADBC. Nododd y canllawiau y chwe maes canlynol o arfer da y dylai lleoliadau eu hystyried wrth gynllunio'r defnydd o'r GADBC:

- datblygiad proffesiynol
- defnyddio ymyriadau yn seiliedig ar dystiolaeth
- gwaith partneriaeth gyda rhieni/gofalwyr
- cydweithio rhwng lleoliadau
- gweithio aml-asiantaeth
- gwaith i fonitro a gwerthuso'r dulliau a ddefnyddir.

1.13 Ystyriodd y gwerthusiad y meysydd hyn a nodwyd yr enghreifftiau canlynol o arfer da yn lleoliadau'r astudiaethau achos;

- Roedd cymryd rhan mewn hyfforddiant ar y GADBC wedi atgyfnerthu ymwybyddiaeth staff o'r angen i gefnogi plant o deuluoedd incwm isel i gyflawni eu potensial. Roedd hefyd wedi cynyddu capasiti lleoliadau i gyflawni strategaethau effeithiol mewn ymateb i anghenion y grŵp hwn o blant.
- Defnyddiodd lleoliadau enghreifftiau o dystiolaeth wedi'i lywio gan arfer wrth benderfynu ar y dulliau a ddefnyddiwyd ganddynt i gefnogi plant a diwallu eu hanghenion. Defnyddiwyd gwybodaeth a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru (gan gynnwys Dysgu Cymru) ac yn yr hyfforddiant yr oeddent yn ei gael.
- Roedd sawl lleoliad yn gweithredu rhaglenni rhianta a theulu. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhieni, datblygu perthnasoedd cadarnhaol rhwng lleoliadau a rhieni, helpu rhieni i gefnogi datblygiad eu plant a chyfeirio rhieni at ffynonellau eraill o gymorth a gwasanaethau.

- Roedd lleoliadau'n ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth eraill fel rhan o ddull aml-asiantaeth i gwrdd ag anghenion plant o gefndiroedd incwm isel.
- Mewn rhai achosion roedd y gwaith a ariannwyd gan y GADBC wedi cryfhau trefniadau pontio o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i mewn i'r system ysgol.

*Dulliau lleoliadau o safbwynt monitro a gwerthuso*

1.14 Gofynnwyd i'r lleoliadau am yr hyn yr oeddent yn gobeithio ei gyflawni drwy ddefnyddio'r GADBC a sut yr oeddent yn mesur ei effaith. Gofynnodd yr astudiaeth hefyd pwy oedd yn casglu gwybodaeth am ddefnydd lleoliadau o'r GADBC a chasglodd farn ar sut y gellid mesur effaith y GADBC.

1.15 Nododd lleoliadau y tri phrif ganlyniad yr oeddent yn ceisio'u cyflawni drwy ddefnyddio'r GADBC: gwella sgiliau iaith a lleferydd plant (86 y cant); gwella parodrwydd plant i ddysgu (77 y cant); a gwella parodrwydd ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen (o flwyddyn 1) (76 y cant).

1.16 Roedd y rhan fwyaf o leoliadau yn mesur effeithiau eu dulliau ar ganlyniadau plant (megis gwella sgiliau iaith a lleferydd plant; gwella parodrwydd plant i ddysgu, a gwella parodrwydd ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen), mewn amrywiaeth o ffyrdd. Roedd y rhain yn cynnwys monitro datblygiad yn erbyn disgwyliadau ar gyfer eu hoed; asesu canlyniadau plant; defnyddio systemau tracio; ac arsylwi ymatebion plant i weithgareddau.

1.17 Roedd rhan fwyaf y lleoliadau yn darparu gwybodaeth fonitro ar eu defnydd o'r GADBC i awdurdodau allanol, fel yr ALl a/neu y CARh. Yn fwyaf cyffredin darparwyd gwybodaeth am wario a nodwyd o fewn eu Cynllun Gwella Ysgol (CGY)/Cynllun Datblygu Ysgol (CDS); gwariant yn y gorffennol a gwariant arfaethedig; a/neu ddisgrifiad ysgrifenedig o'u defnydd o'r GADBC.

1.18 Dangosodd y cyfweliadau astudiaethau achos fod ymarferwyr yn cydnabod yr angen i geisio mesur effaith y GADBC ond eu bod yn awyddus i sicrhau bod unrhyw werthusiad yn hylaw iddynt ac yn addas ar gyfer plant ifanc. Roeddent yn gweld y potensial i adeiladu ar systemau gwerthuso a ddatblygwyd ar gyfer Dechrau'n Deg a'r GAD.

*Casgliad ac argymhellion*

1.19 Mae'r gwerthusiad cynnar hwn o'r broses yn awgrymu mai un o gryfderau sylfaenol y GADBC yw ei fod wedi helpu i godi proffil effaith amddifadedd ar ddysgu a datblygiad plant. Mae wedi annog lleoliadau i ddatblygu eu hymarfer wrth nodi plant o gefndiroedd difreintiedig a gwneud diagnosis o'u hanghenion. Mae lleoliadau wedi rhoi strategaethau ar waith i gefnogi'r plant hyn i wireddu eu potensial. Mewn cyd-destun polisi ehangach, mae'r GADBC yn darparu pont bwysig rhwng mentrau i gefnogi plant a theuluoedd o'u genedigaeth, a'r cymorth a ddarperir gan ysgolion drwy'r GAD.

1.20 Mae'r astudiaeth yn dangos bod y GADBC i raddau helaeth yn cael ei ddehongli a'i weithredu fel y bwriadwyd. Mae wedi nodi rhai enghreifftiau o arfer gorau sy'n dod i'r amlwg sy'n dangos potensial ar gyfer ymchwilio pellach, yn enwedig o ran cymorth rhianta a gwaith grŵp bach gyda'r plant. Y prif flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol dylai fod i sicrhau mwy o eglurder eto ynghylch diben y GADBC a sicrhau mwy o gynaliadwyedd. Hefyd mae'n ymddangos bod angen canolbwyntio mwy ar ddatblygu capasiti o fewn y system i ddiwallu anghenion y plant o gefndiroedd difreintiedig drwy ddatblygu arfer proffesiynol, yn enwedig mewn perthynas â lleoliadau yn y sector nas cynhelir.

1.21 Mae'r gwerthusiad wedi nodi'r argymhellion canlynol ar gyfer Llywodraeth Cymru, CARh ac Awdurdodau Lleol. Mewn rhai achosion bydd y drefn o ran rhannu cyfrifoldebau rhwng yr ALl a'r CARh yn dibynnu ar drefniadau lleol i gefnogi lleoliadau ac adlewyrchir hyn yn y geiriad a ddefnyddir isod.

1. Parhau i ddarparu'r GADBC i alluogi lleoliadau blynyddoedd cynnar i gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig a'u teuluoedd. Os oes modd, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau swm y cyllid a fydd ar gael yn y dyfodol (er enghraifft, dros gyfnod o dair blynedd) i alluogi lleoliadau i gynllunio eu defnydd o'r GADBC yn y tymor hwy.
2. Canolbwyntio'n fwy penodol ar anghenion cymorth lleoliadau nas cynhelir. Dylai Llywodraeth Cymru egluro dosbarthiad y cyllid GADBC i leoliadau nas cynhelir a chyfathrebu'n effeithiol gyda lleoliadau am y sail resymegol a'r trefniadau ar gyfer cyfuno'r GADBC mewn achosion lle nad yw'n cael ei ddosbarthu i leoliadau. Lle mae ALlau yn penderfynu cyfuno'r GADBC er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o'r cyllid, dylid ymgynghori â lleoliadau

nas cynhelir ynghylch yr holl benderfyniadau ar sut y dylid ei ddefnyddio. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen i ALlau gasglu data ar ba leoliadau nas cynhelir sydd wedi elwa o'r GADBC.

3. Adolygu'r rhaglenni gwahanol sydd wedi'u hanelu at gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig ar oedrannau gwahanol, gan gynnwys Dechrau'n Deg, y GADBC a'r GAD, er mwyn nodi pwyntiau dysgu cyffredin a meysydd o ddilyniant/diffyg dilyniant, gan gynnwys a yw rhai plant o gefndiroedd difreintiedig yn 'syrthio drwy'r rhwyd' (er enghraifft, oherwydd nad ydynt yn mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar neu nad ydynt yn cael eu nodi'n effeithiol fel rhai sy'n gymwys ar gyfer cymorth).
4. Parhau i egluro'r sail resymegol dros ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig. Mynd i'r afael ag unrhyw ddryswch mewn lleoliadau am y ffocws ar blant o gefndiroedd difreintiedig, yn hytrach nag ar blant sydd ar ei hôl hi neu blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
5. Sicrhau bod anghenion datblygiad proffesiynol ymarferwyr mewn lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir yn cael eu diwallu drwy gyfleoedd parhaus i wella arfer a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am arfer sy'n esblygu.
6. Darparu arweiniad ar gyfer staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ar ddulliau priodol o nodi plant sy'n gymwys ar gyfer y GADBC, ac ar ba fesurau a dangosyddion y gall lleoliadau eu defnyddio i adnabod anghenion cymorth, mesur dilyniant a gwerthuso effeithiolrwydd eu darpariaeth.
7. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru a CARh weithio gyda lleoliadau i archwilio a phrofi'r dulliau y maent wedi canfod eu bod yn effeithiol o ran adnabod plant cymwys. Dylent wedyn ledaenu arfer da profedig yn y maes gwaith hwn.
8. Nodi lleoliadau sy'n dangos arfer gorau fel y gellir ei rannu yn ehangach.
9. Cefnogi lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir i feithrin cysylltiadau agosach i sicrhau mwy o rannu gwybodaeth ac arfer.
10. Gweithio'n agosach gyda Dechrau'n Deg er mwyn cynyddu cyfathrebu a chryfhau prosesau pontio.

11. Dylai Llywodraeth Cymru a CARh fonitro effaith y penderfyniad i gynyddu'r cyllid cwantwm i £600 y plentyn cymwys, yn enwedig mewn lleoliadau sy'n gwasanaethu nifer bach o blant o gefndiroedd difreintiedig.
12. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dichonoldeb a phriodoldeb comisiynu gwerthusiad o effaith, o ystyried y gofyniad i nodi a thracio cynnydd y plant sydd wedi cael y GADBC, tra hefyd yn lleihau'r baich ar leoliadau ac ysgolion.

## 2. Cyflwyniad/Cefndir

### Cyd-destun Polisi

2.1 Mae blynyddoedd cynnar bywyd plentyn yn sefydlu sylfeini hanfodol ar gyfer eu datblygiad corfforol, seicolegol a chymdeithasol, gan effeithio mewn modd hollbwysig ar ganlyniadau bywyd yn ddiweddarach. Mae gan Lywodraeth Cymru ymrwymiad hirsefydlog i wrthdroi effaith amddifadedd economaidd ar gyfleoedd bywyd plant a phobl ifanc, ac i sicrhau bod yr holl ddysgwyr yn cael eu cefnogi i wireddu eu potensial waeth bynnag fo'u cefndir cymdeithasol fel a ddangoswyd yn fwyaf diweddar yn 'Addysg yng Nghymru: Cenhadaeth ein Cenedl, Cynllun Gweithredu 2017-2021'.

2.2 Gwnaeth 'Adeiladu Dyfodol mwy Disglair', cynllun blynyddoedd cynnar a gofal plant Cymru (Llywodraeth Cymru, 2013), gydnabod bod ymyrraeth gynnar a buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar yn werth chweil. Cyfeiriodd yn benodol at dystiolaeth fod mynychu lleoliad addysg gynnar a gofal plant o ansawdd uchel yn ffactor hanfodol wrth ddylanwadu ar y canlyniadau cadarnhaol i blant yn y tymor hwy.

2.3 Dechrau'n Deg yw rhaglen blynyddoedd cynnar Llywodraeth Cymru ar gyfer teuluoedd â phlant o dan bedair mlwydd oed sy'n byw mewn ardaloedd difreintiedig yng Nghymru (Llywodraeth Cymru, 2017). Mae wedi'i thargedu'n ddaearyddol ac mae'n cynnwys pedair elfen allweddol:

- Gofal plant o ansawdd i bob plentyn rhwng dwy a thair oed mewn ardaloedd Dechrau'n Deg
- Gwell Gwasanaeth Ymwelwyr Iechyd â llwyth achosion o 1:110
- Rhaglenni a chymorth rhianta
- Datblygiad iaith cynnar.

2.4 Mae hefyd yn pwysleisio'r angen i leoliadau blynyddoedd cynnar ac ysgolion i gael trefniadau pontio effeithiol ar waith i gefnogi plant rhwng tair a phedair oed wrth iddynt symud o'r cartref, gofal plant a Dechrau'n Deg i'r Cyfnod Sylfaen.

2.5 Mae Llywodraeth Cymru yn dyrannu cyllid Dechrau'n Deg i bob ALI, yn seiliedig ar asesiad o anghenion ym mhob ardal.

2.6 Mae'r Cyfnod Sylfaen yn gosod y cwricwlwm ar gyfer yr holl blant rhwng tair a saith oed yng Nghymru, mewn lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir (Llywodraeth Cymru, 2016). Comisiynodd Llywodraeth Cymru arolwg annibynnol o'r Cyfnod Sylfaen (Siraj a Kingston, 2014). Nododd hyn yr angen i atgyfnerthu gweithrediad y polisi ac argymhellodd fesurau i gryfhau'r ffordd y caiff ei ddarparu.

**Ynglyn â'r Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GADBC)**

2.7 Mae'r Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GADBC) yn estyniad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion (sydd bellach wedi'i ailenwi yn y Grant Datblygu Disgyblion - GDD). Crëwyd y GAD ym mis Rhagfyr 2011 i gefnogi plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a phlant sy'n derbyn gofal. Mae cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim (e-FSM) yn cael ei ddefnyddio fel procsi ar gyfer 'amddifadedd'. Roedd hyn mewn ymateb i dystiolaeth o wahaniaeth systematig mewn perfformiad rhwng plant o gefndiroedd difreintiedig a rhai nad ydynt yn ddifreintiedig (y cyfeirir ato yn aml fel 'y bwlch cyrhaeddiad'). Yn 2016 y bwlch cyrhaeddiad rhwng disgyblion eFSM a'r rhai nad oeddent yn eFSM oedd 14 pwynt canran ar gyfer y Cyfnod Sylfaen; 14 pwynt canran yng nghyfnod allweddol 2; 20 pwynt canran yng nghyfnod allweddol 3; a 31 pwynt canran yng nghyfnod allweddol 4[1]. Roedd hyn yn cynrychioli gostyngiad cyson yn y bwlch cyrhaeddiad ers 2006.

2.8 Telir y GAD i ysgolion ar gyfer pob dysgwr eFSM rhwng pump a 15 oed ac i'r pedwar CARh ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal sydd rhwng tair a 15 oed[2]. Yn y flwyddyn ariannol 2016-17 derbyniodd ysgolion £1,150 ar gyfer pob disgybl gyda eFSM a derbyniodd y CARh £1,150 ar gyfer pob plentyn sy'n derbyn gofal.

2.9 Ym mis Ebrill 2015, cyflwynodd Llywodraeth Cymru y Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (GADBC). Roedd y GADBC yn ymestyn cymhwystra ar gyfer cyllid i blant tair a phedair oed sy'n mynychu lleoliad Blynyddoedd Cynnar y Cyfnod Sylfaen. Yn yr un modd â'r GAD, nod y GADBC yw gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr dan anfantais. Y bwriad yw goresgyn y rhwystrau ychwanegol sy'n atal dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig rhag cyflawni eu llawn botensial. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau swyddogol i leoliadau blynyddoedd cynnar sy'n amlinellu'r nodau, defnyddiau cymwys ac arfer effeithiol ac atebolrwydd ar gyfer defnydd y GADBC. Ar yr un pryd hefyd cyhoeddwyd dogfen

[1] Daw'r ffigurau hyn o ddata perfformiad a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2016. Mae'r bwlch yn cael ei fesur yn ôl y gwahaniaeth yng nghyfran y disgyblion sy'n cyflawni'r lefel ddisgwyliedig yn y Dangosydd Pwnc Craidd (DPC).
[2] Cyn 2017/18 plant sy'n derbyn gofal rhwng pedair a 15 oed.

arweiniad Llywodraeth Cymru ar Dysgu Cymru o'r enw 'Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar'. Yn hon, cafodd darparwyr Cyfnod Sylfaen eu hannog i ystyried y canlynol:

- Buddsoddi mewn datblygiad proffesiynol a fydd yn helpu staff i fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd, gydag ystyriaeth arbennig ar gyfer hyfforddi staff i gefnogi sgiliau lleferydd, iaith a chyfathrebu dysgwyr.
- Defnyddio ymyriadau y mae tystiolaeth yn dangos yw'r rhai mwyaf effeithiol, fel gwaith grŵp bach, hunan-reoleiddio, ffocws ar gyfathrebu ac iaith, ac ymyriadau i gefnogi dysgu cymdeithasol ac emosiynol.
- Gweithio gyda rhieni/gofalwyr fel partneriaid yn nysgu eu plentyn a'u helpu i gefnogi'r dysgu hwnnw drwy bethau syml y gallant eu gwneud gartref.
- Cyfuno adnoddau a gweithio ar y cyd ag ysgolion a lleoliadau eraill i fanteisio i'r eithaf ar eich Grant.
- Mabwysiadu dull aml-asiantaeth ac ymgysylltu â rhaglenni fel Dechrau'n Deg, Teuluoedd yn Gyntaf a Chymunedau yn Gyntaf.
- Monitro a gwerthuso eich ymyriadau i wneud yn siŵr eich bod yn cael y canlyniadau yr oeddech yn eu dymuno.

2.10 Yn ôl canllawiau swyddogol a gyhoeddwyd gan LlC y pedwar CARh sy'n gyfrifol am sicrhau bod y GADBC yn cael ei ddefnyddio at y dibenion bwriedig. Dyrannwyd y cyllid ar y sail y byddai darparwyr addysg gynnar (gan gynnwys ysgolion, meithrinfeydd, a chylchoedd chwarae) yn cael £300 y dysgwr cymwys. I fod yn gymwys, rhaid i'r dysgwyr dderbyn addysg gynnar y Cyfnod Sylfaen am o leiaf ddeg awr yr wythnos mewn lleoliad cymeradwy.[3]

2.11 Gan nad oes trefn sefydlog i benderfynu statws eFSM mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, aeth Llywodraeth Cymru at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru am gyngor ar fecanwaith addas ar gyfer dyrannu'r cyllid yn dilyn cyflwyno'r GADBC. Mae'r GADBC yn cael ei ddyrannu i ysgolion yn y sector a gynhelir ar sail nifer y plant tair a phedair oed yn y Cyfnod Sylfaen wedi'i luosi gan y gyfran o blant pum mlwydd oed sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (eFSM) yn yr ysgol

[3] Ym mis Rhagfyr 2016, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Addysg Kirsty Williams gynnydd yn y cyllid GADBC o £300 i £600 ar gyfer 2017-18.

honno. Ar gyfer ysgolion meithrin lle nad oes unrhyw blant pum mlwydd oed, defnyddir y cyfartaledd eFSM ar gyfer yr ysgol(ion) cynradd bwydo. Telir y GADBC drwy'r CARh gyda'r amod y mae'n rhaid ei ddirprwyo i ysgolion ac ysgolion meithrin ar gyfradd o 100 y cant.

2.12 Ar gyfer lleoliadau yn y sector nas cynhelir mae swm y GADBC yn seiliedig ar nifer y dysgwyr a ariennir yn y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau nas cynhelir wedi'i luosi gan lefel gyffredinol y cymhwysedd ar gyfer prydau ysgol am ddim ar gyfer plant pump oed yn yr ALl. Disgwylir y CARh i weithio gydag awdurdodau lleol a'u Hathrawon Ymgynghorol y Blynyddoedd Cynnar (AYBC) i gyfeirio arian i leoliadau nas cynhelir yn seiliedig ar wybodaeth leol ac asesiad o anghenion a gynhaliwyd gan Athrawon Ymgynghorol y Cyfnod Sylfaen.

2.13 Mae'r ddogfen arweiniad hefyd yn nodi:

> 'Dylai consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol annog yn gryf cyfuno cyllid GADBC lle y byddai hyn yn golygu y byddai'n cael ei ddefnyddio'n fwyaf effeithiol; yn enwedig ar gyfer lleoliadau gyda dyraniadau bach, er enghraifft, i brynu datblygiad proffesiynol mewn swydd, megis mynediad at therapyddion lleferydd.' (Llywodraeth Cymru, 2015)

2.14 Cafodd adroddiad terfynol gwerthusiad annibynnol o'r GAD ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2017. Canfu hwn fod y GAD wedi codi proffil ac anghenion dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig o fewn ysgolion. Fodd bynnag, nododd yr astudiaeth fod rhywfaint o ddryswch rhwng y bwriad i ganolbwyntio ar ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig a ffocws ar ddisgyblion â chyrhaeddiad is, a allai awgrymu nad yw cyllid bob amser yn cael ei gyfeirio'n llwyr fel y bwriadwyd.

2.15 Roedd y canfyddiadau allweddol o'r gwerthusiad o'r GAD fel a ganlyn:

- Mae'r GAD yn cynrychioli ffynhonnell sylweddol o arian i ysgolion i'w fuddsoddi mewn dulliau i fynd i'r afael ag anfantais ac ystyrir ei bod yn ffynhonnell gyllid 'amhrisiadwy' ar gyfer mathau penodol o weithgarwch i leihau'r bwlch cyrhaeddiad.
- Roedd ysgolion astudiaethau achos yn defnyddio systemau tracio soffistigedig ochr yn ochr â'u gwybodaeth eu hunain am amgylchiadau disgyblion i nodi'r disgyblion yr oeddent yn eu hystyried yn rhai dan anfantais a/neu fod arnynt angen cymorth ychwanegol wedi'i dargedu.

- Mae astudiaethau achos diweddar yn amlygu nifer o enghreifftiau o arfer effeithiol iawn o ran cau'r bwlch cyrhaeddiad. Ar draws yr astudiaethau achos, roedd llawer o enghreifftiau o ysgolion yn datblygu dulliau arloesol o ymgysylltu â disgyblion a rhieni.
- Nododd ysgolion yr astudiaeth achos er bod tystiolaeth feintiol o effaith yn nod tymor hir y bydd angen amser iddo ddod i'r amlwg, yn y tymor byr nodwyd gwelliannau sylweddol yn y 'canlyniadau meddal' megis llesiant, hyder a hunan-barch disgyblion.
- Yn gyffredinol, canfu'r dadansoddiad o effaith bod y bwlch rhwng disgyblion eFSM a'r rhai nad oeddent yn FSM wedi lleihau dros y pum mlynedd diwethaf; mae'n cydnabod patrwm sy'n dod i'r amlwg o lwyddiant o ran lleihau'r 'effaith' o fod yn gymwys am brydau ysgol am ddim ar fesurau cynnydd addysgol rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 4 mewn Saesneg, Mathemateg a Gwyddoniaeth.

2.16 Gyda'i gilydd, mae'r dystiolaeth hon yn dangos bod dylanwadau cyffredin ar lwyddiant lleoliadau dysgu wrth ddarparu cymorth i blant a theuluoedd sy'n cyfrannu at wella eu canlyniadau addysgol. Fodd bynnag, mae'r ffaith nad yw'r plant mwyaf difreintiedig yn cyflawni deilliannau addysgol tebyg i'w cyfoedion nad ydynt o dan anfantais o hyd yn golygu bod angen i'r ymdrechion barhau.

**Nodau ac amcanion yr astudiaeth**

2.17 Dyfarnwyd y gwerthusiad hwn o'r GADBC i NFER ym mis Mehefin 2016, gyda'r nod o archwilio dehongli a gweithredu cynnar y GADBC gan randdeiliaid perthnasol. Y tu hwnt i'r nod cyffredinol hwn, y nod hefyd oedd cryfhau'r corff ehangach o dystiolaeth ar weithrediad llwyddiannus lleoliadau y cyllid a dargedwyd ar gyfer disgyblion dan anfantais, a darparu gwybodaeth bellach ar sut y gellid mynd i'r afael â'r diffyg cyson yn y canlyniadau addysgol a brofir gan blant mewn tlodi.

2.18 Roedd yr astudiaeth yn werthusiad o broses, wedi'i ddylunio i ymchwilio i sut oedd y GADBC yn gweithio yn ymarferol. Nodir isod nodau ac amcanion y gwerthusiad.

*Prif nod*

- Gwerthuso sut y mae'r GADBC yn cael ei ddehongli a'i roi ar waith gan ymarferwyr ar draws y gwahanol leoliadau, a yw'n cael ei weithredu fel y bwriadwyd ac i nodi unrhyw arfer gorau sy'n dod i'r amlwg.

*Amcanion*

1. Asesu'r graddau y mae'r lleoliadau yn ymwybodol o ac/neu yn dilyn y canllawiau 'Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar'. Archwilio sut y mae hyn yn cael ei ddehongli ac unrhyw gyfyngiadau neu anawsterau y mae'r lleoliadau yn eu profi.
2. Nodi (yn seiliedig ar ganfyddiadau rhanddeiliaid) newidiadau i addysgeg a systemau lleoliadau ac unrhyw adeiladu capasiti tymor hir o ran gwella cyrhaeddiad addysgol disgyblion dan anfantais yn economaidd-gymdeithasol.
3. Nodi i ble mae'r lleoliadau yn mynd er mwyn cael gwybodaeth, cymorth a chyngor ar sut i weithredu y GADBC, ac a ydynt yn gwneud ei cynlluniau gwariant yn seiliedig ar dystiolaeth. Nodi pa mor effeithiol y mae (ALlau), CARh a chlystyrau wedi bod o ran sicrhau bod y GADBC yn cael ei ddefnyddio'n effeithiol.
4. Asesu natur a graddau unrhyw wahaniaethau rhwng y tri phrif fath o leoliad (ysgolion cynradd, meithrinfeydd a gynhelir, lleoliadau nas cynhelir) o ran eu dealltwriaeth o'r GADBC a'r ffordd y maent wedi defnyddio'r arian y mae'n ei ddarparu.
5. O gofio bod y GADBC yn grant newydd, asesu arwyddion cynnar o'i gryfderau allweddol ac unrhyw brofiad o gyfyngiadau neu faterion sydd efallai wedi amharu ar ei effeithiolrwydd.
6. Darparu argymhellion ynghylch sut y gall Llywodraeth Cymru, ALlau a lleoliadau ddefnyddio'r 'gwersi cynnar a ddysgwyd' i helpu i gwrdd â blaenoriaeth Llywodraeth Cymru fod pob plentyn yn haeddu'r dechrau gorau mewn bywyd.

*Nodau ac amcanion atodol*

- Trafod gyda lleoliadau a ydynt ar hyn o bryd yn gwerthuso effaith y gwaith a ariennir drwy'r GADBC a goblygiadau gwneud hynny.
- I edrych ar y potensial ar gyfer cynnal gwerthusiad o effaith yn y dyfodol.

# 3. Methodoleg

3.1 Roedd yr astudiaeth yn defnyddio tri phrif ddull: arolwg ar-lein o leoliadau blynyddoedd cynnar; cyfweliadau gyda'r arweinwyr polisi ym mhob un o'r pedwar CARh ac un awdurdod lleol yn ogystal â gyda staff gweithredol mewn tri awdurdod lleol; a chyfweliadau astudiaeth achos mewn 20 o leoliadau. Roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn cynnwys 20 pennaeth/pennaeth lleoliad (wyth pennaeth ysgolion cynradd, chwe phennaeth ysgolion meithrin a chwe phennaeth lleoliadau nas cynhelir) a 17 o staff eraill (saith o athrawon mewn ysgolion cynradd, chwech o athrawon mewn meithrinfeydd a gynhelir, a phedwar aelod o staff mewn lleoliadau nas cynhelir).

3.2 Y bwriad oedd anfon yr arolwg at holl benaethiaid y lleoliadau sy'n derbyn y GADBC. Darparodd Llywodraeth Cymru fanylion yr holl ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin oedd yn derbyn y GADBC. Mae manylion y lleoliadau nas cynhelir yn cael eu cadw gan awdurdodau lleol a gofynnwyd i'r CARh amdanynt, a gasglodd y wybodaeth gan yr ALlau. Fodd bynnag, ni wnaeth tua hanner yr ALlau roi manylion lleoliadau nas cynhelir oedd yn derbyn y GADBC. Goblygiad hyn ar gyfer y gwerthusiad yw ei fod yn debygol ei fod yn tangynrychioli barn y lleoliadau nas cynhelir. Mewn achosion eraill, roedd ALlau wedi darparu manylion ar gyfer yr holl leoliadau nas cynhelir yn eu hardaloedd, ni waeth a oeddent yn derbyn y GADBC ai peidio[4]. Roedd y sampl terfynol yn cynnwys 1,526 o leoliadau blynyddoedd cynnar, y cysylltodd y tîm astudio â hwy. O'r rhai y cysylltwyd â hwy, gwnaeth 376 nodi eu bod yn derbyn y GADBC ac ymateb i'r arolwg yn ystod y cyfnod gweinyddu (18 Ionawr i 3 Mawrth 2017).

3.3 Cynhaliwyd y cyfweliadau â'r pedwar CARh rhwng mis Gorffennaf a mis Medi 2016. Cynhaliwyd y trafodaethau hyn ar gychwyn y gwaith i helpu i lywio'r dull a fabwysiadwyd ar gyfer y gwerthusiad. Cafodd trafodaethau eu cynnal gyda naw o swyddogion y consortia a'u hategu gan gyfweliadau dros y ffôn mewn tri ALl (cafodd pedwar swyddog gyfweliad: swyddog sydd â chyfrifoldebau strategol ynghyd â swyddog sydd â chyfrifoldebau gweithredol mewn un awdurdod lleol; ac un swyddog sydd â rolau gweithredol yn y ddau ALl arall) i drafod sut yr oeddent wedi cefnogi gweithrediad y GADBC mewn lleoliadau nas cynhelir.

[4] Aeth y tîm gwerthuso i'r afael â hyn drwy anfon yr arolwg i'r holl leoliadau a gofyn i ymatebwyr posibl a oeddent yn derbyn y Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar. Dim ond y rhai oedd yn derbyn y Grant a wahoddwyd i gwblhau gweddill yr arolwg.

3.4 Roedd yr 20 o leoliadau astudiaeth achos a ddewiswyd yn cynnwys wyth o ysgolion cynradd a gynhelir, chwe o ysgolion meithrin a gynhelir a chwe lleoliad nas cynhelir. Roedd chwech o'r 20 lleoliad yn lleoliadau cyfrwng Cymraeg. Dewiswyd y sampl i gael amrywiaeth o nodweddion gan ddefnyddio'r meini prawf canlynol.

*Ysgolion cynradd*

- canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim
- lleoliad daearyddol
- cyfrwng iaith
- canlyniadau'r arolygiad Estyn blaenorol (dyfarniadau cyffredinol yn 'dda' neu'n 'ardderchog)'.

*Ysgolion meithrin a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir*

- canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn ysgolion cynradd y dalgylch
- lleoliad daearyddol
- cyfrwng iaith
- canlyniadau'r arolygiad Estyn blaenorol (dyfarniadau cyffredinol yn 'dda' neu'n 'ardderchog)'.

# 4. Canfyddiadau

## Sut y gweithredir y GADBC

4.1 Mae'r bennod hon yn adrodd canfyddiadau o'r arolwg, cyfweliadau ac astudiaethau achos ynglŷn â gweithredu'r GADBC. Mae'n dechrau drwy ddisgrifio sut mae'r CARh ac ALlau yn gweithredu'r GADBC cyn canolbwyntio ar farn staff y lleoliad a ymatebodd i'r arolwg neu a gymerodd ran yn yr astudiaethau achos.

*Pwyntiau allweddol ar weithredu*

- Nododd rhan fwyaf (94 y cant) y lleoliadau blynyddoedd cynnar oedd yn derbyn y GADBC ei brif nod yn gywir, sef: 'I gefnogi plant o aelwydydd incwm isel i gyflawni eu potensial'. Roedd lleiafrif yn nodi nodau eraill (naill ai yn lle neu yn ogystal) nad ydynt yn ddibenion bwriadedig y GADBC, sef: cefnogi plant sy'n syrthio ar ei hôl hi (13 y cant), cefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol (12 y cant) a darparu arian ychwanegol ar gyfer eu lleoliadau (deg y cant).
- Y defnydd mwyaf cyffredin o'r GADBC oedd i gefnogi datblygiad iaith cynnar y plant: dywedodd 94 y cant o leoliadau eu bod wedi ei ddefnyddio at y diben hwn. Defnyddiau eraill a nodwyd gan y mwyafrif o leoliadau oedd: hyfforddiant staff (88 y cant); prynu adnoddau dysgu newydd (88 y cant); talu am oriau staff ychwanegol (86 y cant); gweithio ar systemau asesu/tracio (78 y cant); a chymorth rhianta (75 y cant).
- Dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau (76 y cant) eu bod yn defnyddio'r GADBC i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o blant, sef plant o gefndiroedd incwm isel yn bennaf. Grwpiau eraill a dargedwyd ar gyfer gwariant GADBC oedd: plant y mae eu dysgu yn is na'r disgwyl ar gyfer eu hoed; a phlant ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau (69 y cant) eu bod wedi sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn ymwybodol bod y GADBC yn cael ei dalu i'w lleoliadau. Roedd rhan fwyaf y lleoliadau wedi defnyddio amrywiaeth o ffynonellau o gymorth ac arweiniad, yn enwedig canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i ddefnyddio'r GADBC.

- O gymharu â lleoliadau a gynhelir, dywedodd nifer ystadegol arwyddocaol is o leoliadau nas cynhelir eu bod wedi defnyddio nifer o'r ffynonellau o gymorth ac arweiniad a restrir yn yr arolwg. Fodd bynnag, pan oeddent yn defnyddio cymorth, roedd lleoliadau nas cynhelir yn dweud ei fod yn fwy defnyddiol na lleoliadau a gynhelir.
- Nododd y lleoliadau mai prif fanteision y GADBC oedd: gallu dechrau cefnogi plant difreintiedig flwyddyn yn gynharach a'i fod yn hyblyg (h.y. gallai lleoliadau benderfynu sut orau i'w ddefnyddio).
- Y brif anfantais a nodwyd gan leoliadau oedd bod gwerth y GADBC yn rhy fach, yn enwedig ar gyfer lleoliadau gyda niferoedd isel o blant cymwys. Dywedodd ychydig o leoliadau hefyd fod ansicrwydd ynglŷn â bodolaeth y grant yn y dyfodol a lefel eu dyraniadau GADBC yn cyfyngu eu gallu i gynllunio ymlaen llaw. Dywedodd rhai lleoliadau nas cynhelir nad oedd eu ALI wedi dosbarthu'r GADBC yn uniongyrchol i'r lleoliadau, a byddai wedi bod yn well ganddynt pe byddai'r awdurdodau wedi gwneud hynny.

*Gweithredu gan CARh ac ALlau*

4.2 Gwnaeth y tîm gwerthuso gyfweld â chynrychiolwyr o'r pedwar CARh. Disgrifiodd y rhai a gafodd gyfweliad eu rôl wrth gefnogi cyflawni gwaith a gyllidir gan y GADBC mewn lleoliadau a gynhelir a'r rhai nas cynhelir. Yn achos ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin, roedd y Consortia wedi adeiladu ar eu strategaethau presennol i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol, yn enwedig eu profiad o gefnogi gweithredu'r GAD. Roedd y strwythurau ar gyfer gwneud hynny yn amrywio, sy'n adlewyrchu cyfansoddiad pob Consortiwm a'r arferion gweithredol y maent wedi'u datblygu. Er enghraifft, disgrifiodd y rhai a gafodd gyfweliad o dri Chonsortiwm y rôl a chwaraeir gan eu timau canolog tra roedd un yn amlinellu sut roedd staff yn yr ALlau cyfansoddol yn cefnogi defnydd y GADBC mewn ysgolion. Ar yr un pryd, nododd un Consortiwm ei fod wedi datganoli mwy o gyfrifoldeb i grwpiau o ysgolion (ond nid i leoliadau nas cynhelir) fel rhan o fodel o welliant dan arweiniad ysgolion.

4.3 Pwysleisiodd cynrychiolwyr o'r CARh fod y GADBC yn cynnig cyfle i ddatblygu gallu staff i ddiwallu anghenion y plant o gefndiroedd incwm isel. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig fod y GADBC yn cryfhau ansawdd yr addysgeg o fewn lleoliadau

blynyddoedd cynnar, yn enwedig y rheini yn y sector nas cynhelir a oedd, yn draddodiadol, wedi canolbwyntio mwy ar ddarparu gofal.

4.4 Roedd y CARh yn defnyddio'u systemau presennol i fonitro'r ffordd yr oedd lleoliadau a gynhelir yn defnyddio'r GADBC. Roeddent yn sefydlu systemau casglu data (gan gynnwys casglu data ar-lein). Cyfrifoldeb yr Ymgynghorwyr Her yw gwaith cymorth a herio.

4.5 Roedd ALlau unigol yn monitro defnydd y GADBC mewn lleoliadau nas cynhelir er mewn rhai ardaloedd, cefnogwyd y gwaith gan y consortiwm perthnasol. Roedd y math o drefniadau yn cynnwys y canlynol:

- yn ardal un consortiwm, am resymau a ddisgrifiwyd fel materion hygyrchedd, mae ALlau yn casglu data o leoliadau nas cynhelir yn defnyddio fersiwn bapur o'r ffurflen proforma ar-lein a ddefnyddiwyd gan y consortiwm i gasglu gwybodaeth oddi wrth y lleoliadau a gynhelir.
- Roedd un consortiwm yn cadw trosolwg ar y sector nas cynhelir gan gymryd sampl o'u cynlluniau GADBC a chasglu gwybodaeth fonitro.

4.6 Eglurodd y rhai a gafodd gyfweliad fod ALlau unigol yn gyfrifol am weinyddu a monitro'r GADBC mewn lleoliadau nas cynhelir. Dywedwyd bod timau blynyddoedd cynnar yr ALlau yn defnyddio eu gwybodaeth leol wrth ddyrannu cyllid i leoliadau nas cynhelir, ar yr amod bod yr holl arian yn cael ei ddefnyddio at y diben a fwriadwyd. Ym mhob un o'r ardaloedd lle ymwelwyd â lleoliadau nas cynhelir fel rhan o'r gwerthusiad hwn, roedd yr ALlau perthnasol wedi cyfuno'r cyllid GADBC ar gyfer lleoliadau nas cynhelir er mwyn sicrhau gwerth am arian a gwella canlyniadau.

4.7 Nododd CARh fod ALlau unigol yn gweithio o fannau cychwyn gwahanol wrth gwrdd ag anghenion hyfforddi lleoliadau nas cynhelir: roedd rhai yn dechrau cynnig cyrsiau yr oedd eraill wedi'u darparu ers sawl blwyddyn. Roedd hyn yn golygu bod gan leoliadau nas cynhelir brofiadau blaenorol gwahanol iawn o ran hyfforddiant a chymorth. Roedd dau o'r rhai a gafodd gyfweliad o gonsortia yn teimlo fod angen ystyried sut y gallai gwahanol ALlau weithio'n fwy effeithiol drwy gydweithio i ddarparu mathau penodol o hyfforddiant a gwaith datblygu staff arall ar gyfer lleoliadau nas cynhelir.

*Dealltwriaeth a defnydd yr ymarferwyr o'r GADBC*

4.8 Nod y gwerthusiad oedd ystyried a oedd gwahaniaethau rhwng lleoliadau blynyddoedd cynnar yn eu hymatebion i'r arolwg. Ystyriodd y tîm y pedair nodwedd ganlynol fel sail ar gyfer dadansoddi'r gwahaniaethau hyn: math o leoliad (ysgol a gynhelir; ysgol feithrin a gynhelir; lleoliad nas cynhelir); lleoliad (gwledig, maestrefol/cymysg, trefol); cyfrwng iaith (Cymraeg, Cymraeg a Saesneg, Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog; cyfrwng Saesneg); ac amddifadedd (yn seiliedig ar Fynegai Amddifadedd Lluosog Cymru ar gyfer cod post y lleoliad a'i rannu'n chwarteli). Roedd y dadansoddiad hwn yn defnyddio profion Chi Squared ac yn gosod lefel arwyddocâd cyffredinol o $p<0.05$, sy'n golygu bod y tebygolrwydd o'r canlyniad yn digwydd drwy siawns yn llai nag un mewn ugain[5].

4.9 Nododd y dadansoddiad hwn nifer bach o wahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn ymwneud â math y lleoliad a'r cyfrwng iaith. Nid oedd unrhyw wahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn yr ymatebion i'r arolwg yn gysylltiedig â lleoliad neu amddifadedd y lleoliad sy'n golygu nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y nodweddion hyn yn dylanwadu ar atebion ymatebwyr. Rydym wedi adrodd ar yr holl ganlyniadau lle roedd y gwahaniaethau yn ystadegol arwyddocaol.

*Deall nodau GADBC*

4.10 Prif nod y GADBC yw cefnogi plant o gartrefi incwm isel i gyflawni eu potensial. Cynhwyswyd y nod hwn mewn cwestiwn yn yr arolwg ynghyd â thri ateb arall oedd yn bosibl ond yn anghywir. Gwahoddwyd yr ymatebwyr i ddewis cynifer o ymatebion a oedd yn berthnasol a gellir gweld eu hatebion yn Nhabl 1.

[5] Cymhwyswyd cywiriad Bonferonni i addasu ar gyfer y lefel arwyddocâd ar draws y dadansoddiad cyfan, sy'n helpu i leihau'r risg o ganlyniadau cadarnhaol ffug.

**Tabl 1: Beth yw eich dealltwriaeth o ddibenion y GADBC?**

| Dibenion posibl | % |
|---|---|
| I gefnogi plant o gartrefi incwm isel i gyflawni eu potensial. | 94 |
| I gefnogi gwaith gyda phlant sy'n syrthio ar ei hôl hi | 13 |
| I gefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | 12 |
| I ddarparu arian ychwanegol ar gyfer fy lleoliad | 10 |
| Dim ymateb | 0 |

N = 376
Gellid rhoi mwy nag un ateb felly nid yw'r canrannau yn adio i 100.
Ffynhonnell: Arolwg NFER o Leoliadau Blynyddoedd Cynnar Cymru.

4.11 Dengys y tabl fod bron yr holl ymatebwyr wedi nodi'n gywir prif nod y GADBC, sef cefnogi plant o gartrefi incwm isel i gyflawni eu potensial. Nododd lleiafrif nodau ychwanegol, gyda chyfrannau tebyg yn dewis: 'i gefnogi gwaith gyda phlant sy'n syrthio ar ei hôl hi'; ac 'i gefnogi plant ag anghenion dysgu ychwanegol'. Roedd deg y cant o'r ymatebwyr o'r farn mai un o amcanion y GADBC oedd darparu cyllid ychwanegol ar gyfer eu lleoliadau.

4.12 Roedd dau wahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn ôl y cyfrwng iaith a ddefnyddiwyd yn y lleoliad;

- Dywedodd cyfran is o ymatebwyr o leoliadau cyfrwng Cymraeg (84 y cant) mai diben y GADBC oedd 'cefnogi plant o gartrefi incwm isel i gyflawni eu potensial' o gymharu ag ymatebwyr o leoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg (94 y cant), lleoliadau cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog (97 y cant), neu leoliadau cyfrwng Saesneg (99 y cant).
- Dywedodd cyfran uwch o ymatebwyr o leoliadau cyfrwng Cymraeg (23 y cant) mai diben y GADBC oedd 'darparu arian ychwanegol ar gyfer fy lleoliad' o gymharu â lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg (18 y cant), lleoliadau cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog (saith y cant) neu leoliadau cyfrwng Saesneg (pedwar y cant).

4.13 Ategwyd y canfyddiadau o'r arolwg yn y cyfweliadau â'r 20 lleoliad astudiaeth achos. Roedd ymarferwyr yn cydnabod mai diben y GADBC oedd cefnogi plant o gefndiroedd incwm isel (a ddiffinnir yn fras). Gwelwyd hyn fel ffordd o sicrhau y bodlonir eu hanghenion trwy ddarparu'r cymorth angenrheidiol iddynt symud ymlaen yn llwyddiannus o ran eu dysgu a'u datblygiad ehangach. Teimlai'r ymatebwyr fod y

GADBC wedi codi proffil y grŵp hwn o blant a'i fod wedi annog ymarferwyr i ystyried pa strategaethau a fyddai'n fwyaf effeithiol wrth ddiwallu eu hanghenion.

*Defnydd o'r GADBC*

4.14 Roedd yr arolwg yn cynnwys cyfres o gwestiynau am sut yr oedd lleoliadau'n defnyddio'r cyllid GADBC rhwng mis Medi 2015 a mis Mawrth 2017 (cynhaliwyd cyfnod gweinyddu'r arolwg rhwng Ionawr a Mawrth 2017). Roedd y rhain yn canolbwyntio ar feysydd eang o wariant posibl: cymorth uniongyrchol ar gyfer dysgu plant; monitro systemau a hyfforddiant staff; ac adnoddau a chysylltiadau ag asiantaethau eraill. Gwahoddwyd lleoliadau hefyd i nodi unrhyw ffyrdd eraill yr oeddent wedi defnyddio'r cyllid.

4.15 Mae Tabl 2 yn dangos sut yr oedd lleoliadau wedi defnyddio'r GADBC i gefnogi dysgu'r plant, monitro a hyfforddiant staff[6].

**Tabl 2: Dysgu plant, monitro a hyfforddiant staff**

| Diben | % |
|---|---|
| Datblygiad iaith cynnar | 94 |
| Hyfforddiant staff i helpu staff i weithio gyda phlant dan anfantais | 88 |
| Gwaith ar systemau (e.e. ar gyfer asesu neu dracio) | 78 |
| Cymorth rhianta | 74 |
| Cefnogi'r cyfnod pontio i blant i'r Cyfnod Sylfaen | 73 |
| Dim ymateb | 2 |

N = 376
Gellid rhoi mwy nag un ateb felly nid yw'r canrannau yn adio i 100. Atebodd cyfanswm o 369 o ymatebwyr o leiaf un eitem yn y cwestiwn hwn.
Ffynhonnell: Arolwg NFER o Leoliadau Blynyddoedd Cynnar Cymru.

4.16 Mae'r tabl yn dangos y defnyddiwyd y GADBC gan y mwyafrif o leoliadau i gefnogi dysgu plant ym mhob un o'r ffyrdd a restrwyd yn yr arolwg.

4.17 Roedd bron yr holl leoliadau (94 y cant) wedi defnyddio'r GADBC i gefnogi datblygiad iaith cynnar plant. Dyma yn amlwg oedd y brif flaenoriaeth i'r lleoliadau, a dywedodd 61 y cant eu bod wedi defnyddio'r GADBC 'i raddau helaeth' at y diben hwn (gweler Atodiad 1).

4.18 Mae Tabl 3 yn dangos sut yr oedd lleoliadau wedi defnyddio'r GADBC ar gyfer prynu adnoddau a gwneud cysylltiadau ag asiantaethau eraill.

[6] Gweler Atodiad 1 am fanylion llawn am eiriad y cwestiwn.

**Tabl 3: Adnoddau a chysylltiadau ag asiantaethau eraill**

| Diben | % |
|---|---|
| Prynu adnoddau a rhaglenni dysgu newydd | 78 |
| Talu am oriau staff ychwanegol | 76 |
| Cysylltiadau ag asiantaethau eraill | 70 |
| Gwella'r amgylchedd ffisegol | 55 |
| Talu am adnoddau TG | 46 |
| Ymestyn yr amser y mae eich lleoliad yn agored | 12 |
| Diben arall | 30 |
| Dim ymateb | 4 |

N = 376
Gellid rhoi mwy nag un ateb felly nid yw'r canrannau yn adio i 100. Atebodd cyfanswm o 369 o ymatebwyr o leiaf un eitem yn y cwestiwn hwn.
Ffynhonnell: Arolwg NFER o Leoliadau Blynyddoedd Cynnar Cymru.

4.19 Mae'r tabl yn dangos bod lleoliadau yn defnyddio'r GADBC i brynu adnoddau dysgu newydd, talu am amser staff ychwanegol a gwneud cysylltiadau ag asiantaethau eraill. Roedd dros hanner (55 y cant) wedi ei ddefnyddio ar gyfer gwella'r amgylchedd ffisegol ac roedd lleiafrif sylweddol (46 y cant) wedi ei ddefnyddio i brynu adnoddau TG. Roedd llai o leoliadau yn defnyddio'r GADBC i ymestyn eu horiau agor. Cafwyd dau wahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn yr atebion i'r cwestiwn hwn gan ymatebwyr mewn gwahanol fathau o leoliadau. Nodir y rhain isod.

- Dywedodd yr holl leoliadau nas cynhelir eu bod yn defnyddio'r GADBC ar gyfer prynu adnoddau a rhaglenni dysgu newydd o gymharu â 76 y cant o ysgolion a gynhelir a 73 y cant o'r meithrinfeydd a gynhelir.
- Dywedodd cyfran uwch o'r ymatebwyr mewn ysgolion a gynhelir (84 y cant) eu bod wedi defnyddio'r GADBC i dalu am oriau staff ychwanegol, o gymharu ag ymatebwyr mewn ysgolion meithrin a gynhelir (67 y cant) neu mewn lleoliadau nas cynhelir (53 y cant).

4.20 Fel y gellir gweld yn Nhabl 3, dywedodd tua thraean (30 y cant) o'r ymatebwyr eu bod wedi defnyddio'r GADBC at ddiben arall, ac roedd yr arolwg yn eu gwahodd i ddarparu rhagor o fanylion. Y defnyddiau ychwanegol mwyaf cyffredin o'r GADBC oedd; i gyflogi mwy o staff, yn enwedig y rhai sydd â rôl arbenigol (fel gweithiwr

cymorth bugeiliol, swyddog llesiant neu swyddog cyswllt teulu); neu i ymestyn nifer yr oriau yr oeddent yn eu cynnig. Darparodd nifer o ymatebwyr ragor o fanylion ar yr eitemau a restrwyd yn y cwestiwn, er enghraifft drwy egluro'r defnydd o oriau staff ychwanegol, natur hyfforddiant staff, neu ddisgrifio eu gwaith gyda rhieni.

*Themâu gwariant*

4.21 Yn ystod yr ymweliadau astudiaethau achos, dywedodd cynrychiolwyr lleoliadau eu bod yn newid y math o waith yr oeddent yn ei wneud yn gyson i ymateb i angen. Pwysleisiwyd eu bod yn cysyniadu'r GADBC yn eang, ac yn teimlo y dylid ei ddefnyddio i fynd i'r afael ag anghenion y plentyn cyfan, gan gynnwys cefnogi eu sgiliau personol, cymdeithasol a chyfathrebu yn hytrach na chanolbwyntio ar ddysgu yn unig. Dywedodd y rhan fwyaf o leoliadau a gynhelir eu bod yn defnyddio'r GADBC i ariannu mwy o'r gweithgareddau yr oeddent yn eu cynnig eisoes. Dywedodd eraill fod y GADBC yn eu galluogi i roi mwy o sylw a chefnogaeth fwy dwys i blant yn ogystal â'r hyn yr oeddent yn ei darparu eisoes. Sylw cynrychioliadol oedd: 'Gallem fod wedi ei wneud [h.y. gallen nhw fod wedi gwneud y gweithgaredd heb gyllid ychwanegol], ond byddai wedi golygu y byddai plant eraill, rhannau eraill o'r ysgol, wedi dioddef.'

4.22 Nododd rhai bod y GADBC yn caniatáu iddynt gynnig cyfleoedd newydd i blant a/neu deuluoedd fel mwy o sylw a chymorth unigol, ymyriadau newydd i gefnogi dysgu, allgymorth teuluol neu raglenni rhianta.

4.23 Pwysleisiodd y rhai a gafodd gyfweliad fod datblygu hyder a sgiliau cymdeithasol y plant yn hanfodol er mwyn i'r plant lwyddo yn nes ymlaen yn yr ysgol. Rhoddwyd enghreifftiau o ddefnyddio'r GADBC i gefnogi datblygiad plant yn y sgiliau canlynol:

- sgiliau cyfathrebu, gan gynnwys gwrando a siarad
- ymddwyn yn briodol
- hunan-hyder yn eu gallu i ddysgu
- sgiliau cymdeithasol: rhyngweithio gyda phlant eraill mewn amrywiaeth o gyd-destunau gwahanol
- sgiliau echddygol manwl fel dal pensil a gallu trin amrywiaeth o wrthrychau
- sgiliau personol, fel gwisgo eu hunain, defnyddio platiau, cyllyll a ffyrc; a defnyddio'r toiled.

4.24 Roedd y ffordd y defnyddiwyd y cyllid gan yr ALIau i gefnogi gwaith y lleoliadau nas cynhelir yn golygu bod llai o annibyniaeth ganddynt dros themâu gwario. Roeddent wedi cael hyfforddiant a ddarparwyd gan eu ALI. Roedd hyn yn canolbwyntio ar raglenni neu ddulliau gweithredu penodol i gefnogi plant o gefndiroedd incwm isel, darparu cymorth teuluol a rhianta, a themâu eraill a nodwyd gan yr ALI. Teimlai'r staff o leoliadau nas cynhelir a fynychodd yr hyfforddiant ei fod wedi dyfnhau eu dealltwriaeth o'r materion hyn yn hytrach na chyflwyno meysydd gwaith hollol newydd.

*Targedu grwpiau penodol o blant*

4.25 Gofynnodd yr arolwg a oedd lleoliadau wedi defnyddio'r cyllid GADBC i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o blant, ac os felly, pa rai. Dywedodd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr (76 y cant) eu bod wedi targedu'r cyllid at grwpiau penodol o blant. Roedd yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn amrywio yn ôl y math o leoliad: dywedodd 29 y cant o'r lleoliadau nas cynhelir eu bod yn targedu'r cyllid GADBC at grwpiau penodol o blant o'i gymharu â 71 y cant o ysgolion meithrin a 87 y cant o ysgolion cynradd, gan awgrymu bod targedu yn arfer mwy cyffredin yn y sector a gynhelir.

4.26 Gofynnwyd i'r 286 o ymatebwyr a ddywedodd eu bod yn targedu cyllid pa grwpiau o blant yr oeddent yn eu targedu. Dangosir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn Nhabl 4.

**Tabl 4: Pa grwpiau wnaethoch chi eu targedu?**

| **Grwpiau a dargedwyd** | **%** |
|---|---|
| Plant o gefndiroedd incwm isel | 90 |
| Plant y mae eu dysgu yn is na'r disgwyl ar gyfer eu hoedran | 57 |
| Plant ag anghenion dysgu ychwanegol | 36 |
| Plant sy'n derbyn gofal | 23 |
| Plant gyda Chymraeg/Saesneg fel iaith ychwanegol | 12 |
| Grŵp arall o blant | 12 |
| Dim ymateb | 0 |

N = 286
Cwestiwn hidlo, yn seiliedig ar ymatebion gan y 286 o leoliadau a oedd yn targedu grwpiau penodol.
Gellid rhoi mwy nag un ateb felly nid yw'r canrannau yn adio i 100.
Ffynhonnell: Arolwg NFER o Leoliadau Blynyddoedd Cynnar Cymru.

4.27 Mae'r tabl yn dangos bod y mwyafrif o'r ymatebwyr (90 y cant) oedd yn targedu gwariant eu GADBC wedi ei ganolbwyntio ar blant o gefndiroedd incwm isel, sydd yn hollol gyson â nod sylfaenol y GADBC. Yn ogystal, dywedodd dros hanner (57 y

cant) eu bod yn targedu plant yr oedd eu dysgu yn is na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoedran, tua thraean (36 y cant) yn ei dargedu at blant ag anghenion dysgu ychwanegol ac ychydig o dan chwarter (23 y cant) yn ei dargedu at blant sy'n derbyn gofal. Dywedodd lleiafrif bach (12 y cant) eu bod yn targedu plant nad Cymraeg/Saesneg oedd iaith eu cartref. Mae'r canfyddiadau hyn yn debyg i'r rhai a nodwyd gan Pye et al., (2015) mewn perthynas â thargedu'r GAD.

4.28 Gofynnwyd i'r 12 y cant o ymatebwyr (35 o bobl) a nododd eu bod wedi targedu 'grŵp arall o blant' i ddarparu rhagor o wybodaeth. Yr atebion mwyaf cyffredin oedd: plant sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (naw o ymatebwyr); plant â sgiliau cyfathrebu gwael (saith o ymatebwyr); a phlant 'sy'n agored i niwed' (pedwar ymatebydd).

4.29 Yn ystod y cyfweliadau astudiaethau achos, gofynnwyd i staff pa systemau a ddefnyddiwyd ganddynt i nodi'r plant yr oeddent yn teimlo bod angen cymorth ychwanegol arnynt wedi'i ariannu drwy'r GADBC. Nododd staff fod eu tasg yn gymhleth oherwydd, yn wahanol i'r GAD, nid oeddent yn gallu defnyddio eFSM fel modd o nodi amddifadedd. Yn absenoldeb dangosyddion ffurfiol o'r fath, roedd yn rhaid i staff ddibynnu ar eu systemau a gwybodaeth am eu teuluoedd. Dywedodd y rhan fwyaf ohonynt eu bod yn defnyddio eu systemau monitro presennol; yr oedd rhai wedi mireinio'r systemau hynny i ganolbwyntio'n benodol ar plant yr ystyriwyd eu bod yn 'agored i niwed' (o ran eu dysgu a'u datblygiad) neu'r rhai ag anghenion datblygiadol. Roedd rhai lleoliadau wedi datblygu systemau yn gysylltiedig â Dechrau'n Deg a'u profiad o'r GAD. Dywedodd rhai lleoliadau eu bod yn tracio plant o Dechrau'n Deg tra bod eraill yn defnyddio cysylltiadau sefydledig ag ymwelwyr iechyd i nodi plant o gartrefi incwm isel. Adroddodd rhai ysgolion eu bod wedi croesgyfeirio enwau'r plant yr oeddent wedi'u nodi â brodyr a chwiorydd hŷn y nodwyd yr oeddent yn gymwys am brydau ysgol am ddim.

4.30 Er na ddywedodd yr un o'r lleoliadau eu bod wedi datblygu systemau hollol newydd i nodi plant yr oedd angen cymorth arnynt mewn ymateb i'r GADBC, nododd rhai eu bod wedi cynyddu swm yr asesu diagnostig a monitro yn y blynyddoedd cynnar. Roedd hyn yn golygu eu bod yn llawer mwy hyderus nad oedd plant yn 'syrthio drwy'r rhwyd' a bod eu hanghenion yn cael eu nodi'n fwy effeithiol nag yn y gorffennol.

*Cyfathrebu â rhieni*

4.31 Gofynnodd yr arolwg i'r lleoliadau a oeddent wedi sicrhau bod rhieni/gwarcheidwaid yn ymwybodol bod y GADBC yn cael ei dalu i'w lleoliadau. Dywedodd y mwyafrif (69 y cant) eu bod wedi sicrhau bod rhieni yn ymwybodol (dywedodd 54 y cant eu bod wedi rhoi gwybod i'r holl rieni a dywedodd 15 y cant eu bod wedi rhoi gwybod i rai rhieni). Dywedodd tua chwarter (26 y cant) nad oeddent wedi rhoi gwybod i rieni bod y lleoliad yn derbyn y GADBC.

4.32 Canfu'r cyfweliadau astudiaethau achos mai ychydig yn unig o'r lleoliadau oedd wedi trafod y GADBC gyda rhieni oherwydd eu bod yn teimlo nad oedd yn rhywbeth a oedd yn adnabyddus yn y gymuned ehangach. Awgrymodd yr ymatebion i'r arolwg nad oedd staff ysgolion yn tueddu i wahaniaethu rhwng y GADBC a'r GAD wrth drafod eu dulliau gyda rhieni a chadarnhawyd yr argraff hon yn ystod y cyfweliadau.

**Natur y gwariant: lleoliadau a gynhelir**

*Staff ychwanegol*

4.33 Dywedodd staff yn y rhan fwyaf o'r lleoliadau a gynhelir yr ymwelwyd â hwy eu bod wedi defnyddio'r GADBC i ariannu oriau staff ychwanegol naill ai drwy gynyddu eu horiau gwaith neu drwy gyflogi staff ychwanegol i ryddhau eraill. Gwelwyd y GADBC fel rhywbeth oedd yn cynnig cyfleoedd i ysgolion ddatblygu profiadau dysgu mwy personol ar gyfer plant. Fel y nododd un pennaeth ysgol, mae'r GADBC 'yn caniatáu i ni deilwra'r cwricwlwm i ddiwallu anghenion y rhai sydd angen iddo gael ei ddarparu mewn ffordd wahanol'.

4.34 Lle y defnyddiwyd y GADBC i gael capasiti staff ychwanegol, dywedodd y rhai a gafodd gyfweliad eu bod yn defnyddio'r ymarferwyr hynny i ganolbwyntio ar waith gydag unigolion neu grwpiau o blant. Cyfeirwyd at dystiolaeth (gan amlaf wedi'i dosbarthu trwy strwythurau CARh) oedd yn awgrymu bod y GAD wedi bod yn fwyaf effeithiol lle roedd wedi'i ddefnyddio i brynu amser staff ychwanegol ac roeddent wedi trosi'r dull hwn i'w defnydd o'r GADBC. Er enghraifft, disgrifiodd pennaeth un ysgol sut roeddent wedi gallu rhyddhau aelod o staff i weithio gyda grŵp bach o blant i ddatblygu eu sgiliau iaith a lleferydd. Roedd y gwaith yn cynnwys oedolion yn treulio amser gyda'r plant hynny i fodelu sgiliau iaith yn ystod gweithgareddau seiliedig ar chwarae.

4.35 Roedd eraill yn addasu ymarfer i ddarparu ymyriadau penodol dosbarth cyfan drwy brynu adnoddau fel llyfrau, deunyddiau i gefnogi gwaith mewn siarad a gwrando, neu dabledi a ddefnyddiwyd ganddynt i gael deunyddiau darllen wedi'u teilwra i gam datblygu'r plant, ni fyddent wedi gallu cael gafael arnynt fel arall.

4.36 Roedd un lleoliad wedi nodi yr angen i gefnogi plant, yn enwedig y rhai o gefndiroedd incwm isel, i ddod yn ddysgwyr mwy gweithgar ac i ymgysylltu mwy â'r amgylchedd dysgu awyr agored. Defnyddiwyd y cyllid GADBC i ryddhau aelod o staff i gefnogi plant i ddatblygu mwy o annibyniaeth a hyder fel y gallent fod yn ddysgwyr mwy gweithgar. Roedd yr aelod o staff yn helpu plant mewn amrywiaeth o ffyrdd gan gynnwys:

- dysgu sut i wisgo dillad awyr agored i gael mynediad at yr amgylchedd dysgu awyr agored
- datblygu eu sgiliau echddygol manwl mewn sefyllfaoedd anffurfiol er enghraifft drwy wneud bara a gweithio â thoes.

4.37 Mae'r dulliau hyn wedi helpu i feithrin awydd y plant i chwilio am brofiadau newydd ac wedi cynyddu eu diddordeb mewn archwilio eu hamgylchedd.

4.38 Hefyd, defnyddiodd lleoliadau y GADBC i helpu plant o gefndiroedd incwm isel nad oedd ganddynt sgiliau cymdeithasol datblygedig. Cyfeiriodd staff at enghreifftiau lle roedd trefniadau gofal plant blaenorol neu unigrwydd teuluoedd wedi cyfyngu ar gyfleoedd y plant hynny i ddatblygu'n gymdeithasol. Mewn rhai lleoliadau, defnyddiwyd y GADBC i alluogi staff i roi mwy o sylw unigol i'r plant hyn a'u helpu i integreiddio gydag eraill. Dywedodd y lleoliadau a oedd yn defnyddio'r dull hwn na fyddai wedi bod yn bosibl heb y cyllid, oherwydd na fyddai digon o staff wedi bod ganddynt i gynnig cymorth unigol.

*Dysgu awyr agored*

4.39 Roedd rhai lleoliadau wedi sylwi bod llai o hyder gan blant o gefndiroedd difreintiedig wrth ddefnyddio'r amgylchedd dysgu awyr agored ac yr oeddent yn priodoli hyn i brofiad cyfyngedig o chwarae yn yr awyr agored. Er enghraifft, disgrifiwyd hyn gan Gydlynydd Cyfnod Sylfaen a nododd 'Yn aml, mae diffyg profiad gan y plant o'r awyr agored. Rydym yn rhoi'r cyfleoedd hynny iddynt, ac mae'r GADBC wedi helpu ni i gynnig y mathau hynny o brofiadau a chyfleoedd’. Roedd hyn wedi ysgogi sawl lleoliad a gynhelir i ddefnyddio y GADBC i wella dysgu awyr agored drwy wneud gwelliannau i gyfleusterau y tu allan, megis prynu deunyddiau a

oedd yn golygu y gallai'r plant chwarae y tu allan drwy gydol y flwyddyn. Roedd hyn wedi galluogi lleoliadau i wella'r ffordd yr oeddent yn gweithredu cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Fel y nododd un Cydlynydd Cyfnod Sylfaen, 'Rydym bellach yn gallu defnyddio'r ardal awyr agored drwy gydol y flwyddyn sydd wedi cymryd gwaith y CS i lefel wahanol'. Roedd y lleoliadau a ddywedodd eu bod wedi defnyddio'r arian yn y modd hwn yn dadlau er bod newidiadau o'r fath o fudd i'r holl blant, roedd iddynt fanteision penodol ar gyfer y rhai o gefndiroedd difreintiedig. Roedd hyn oherwydd bod yr ymarferwyr yn credu nad oedd y plant hynny wedi cael eu hannog i chwarae yn yr awyr agored cyn mynd i'w lleoliadau.

*Hyfforddiant staff*

4.40 Yn ystod y cyfweliadau, pwysleisiodd cynrychiolwyr o'r CARh fod y GADBC yn cynnig cyfle i ddatblygu sgiliau staff i ddiwallu anghenion y plant o gefndiroedd incwm isel. Roeddent yn teimlo ei bod yn bwysig fod y GADBC yn cryfhau ansawdd yr addysgeg o fewn lleoliadau blynyddoedd cynnar, yn enwedig y rhai oedd yn draddodiadol wedi canolbwyntio yn bennaf ar ddarparu gofal. Roedd rhai ysgolion yn defnyddio'r GADBC i ariannu hyfforddiant ar gyfer eu staff. Roeddent yn rhyddhau staff i fynychu hyfforddiant i baratoi ar gyfer rôl benodol (megis cyswllt teulu) neu gael eu hyfforddi i gefnogi grwpiau penodol o blant (fel y rhai ag anghenion datblygiadol neu'r rhai yr oedd eu brodyr neu chwiorydd yn derbyn prydau bwyd am ddim yn yr ysgol).

4.41 Roedd lleoliadau yn aml yn canolbwyntio hyfforddiant ar Gynorthwywyr Addysgu Lefel Uwch (CALU) neu Gynorthwywyr Addysgu (CA) oedd yn cael eu defnyddio i weithio gyda grwpiau bach o blant yn fwy dwys. Fel y nododd un pennaeth: 'Mae hyn wedi agor ein llygaid i'r hyn y gall y CA ei wneud ac mae wedi agor llygaid y CA i'r hyn y mae ganddynt y gallu i'w wneud.'

*Rhaglenni rhianta*

4.42 Roedd sawl un o'r 14 o astudiaethau achos mewn lleoliadau a gynhelir wedi defnyddio cyllid GADBC i ddatblygu rhaglenni rhianta a gwaith cyswllt teulu. Nododd ysgolion meithrin a gynhelir eu bod wedi defnyddio'r arian yn y modd hwn yn benodol. Roeddent wedi defnyddio'r GADBC i ryddhau staff i weithio gyda rhieni; i ddatblygu eu perthynas a nodi pa fath o gymorth yr oedd ei angen ar deuluoedd. Er enghraifft, rhyddhaodd un feithrinfa aelod o staff i ddatblygu perthnasoedd gyda rhieni yn anffurfiol trwy sgwrsio â nhw wrth giât yr ysgol. Roedd y feithrinfa yn teimlo

bod hyn wedi helpu rhieni i fagu hyder i ymgysylltu â'r lleoliad ac wedi helpu i fynd i'r afael â chanfyddiadau negyddol ynglŷn â lleoliadau addysgol a oedd efallai wedi deillio o brofiadau blaenorol rhieni. Mewn rhai achosion, roedd ysgolion meithrin yn gwneud galwadau ffôn wythnosol i ymgysylltu â rhieni, yn enwedig y rhai nad oeddent wedi'u gweld ac yn teimlo bod angen iddynt eu cefnogi. Roedd lleoliadau hefyd wedi gweithio gyda rhieni i ddatblygu dealltwriaeth o'r ffordd yr oedd y lleoliad yn gweithio a deall y polisïau oedd yn eu lle a'r sail resymegol ar gyfer y rhain.

4.43 Yn fwy cyffredinol, roedd y math o waith yr oedd lleoliadau yn ei wneud fel rhan o'u rhaglenni rhianta yn cynnwys gwaith i ddatblygu 'rhieni hyderus', trefnu gweithgareddau cymdeithasol fel gweithdai crefft (megis digwyddiadau ar thema'r Pasg neu'r Nadolig), digwyddiadau caffi a phicnic eirth, i adeiladu'r perthnasoedd hyn. Defnyddiodd un lleoliad y cyllid i ryddhau aelod o staff i weithio fel cydlynydd cartref-ysgol, gan arwain gweithdai a sesiynau galw heibio gyda rhieni, a chynnal ymweliadau â'r cartref fel y bo'n briodol. Roedd y cysylltiadau hyn yn aml yn arwain at greu cynlluniau gweithredu cytûn oedd yn llywio rhieni i allu cefnogi eu plant yn y lleoliad.

4.44 Disgrifiodd staff yn y lleoliadau sut roedd eu gwaith wedi newid. Er enghraifft, disgrifiodd un lleoliad sut yr oeddent yn cyfeirio rhieni at wasanaethau eraill a oedd wedi meithrin perthynas waith agosach gydag ymwelwyr iechyd. Roedd lleoliad arall wedi gweithio gyda rhieni i'w helpu i gymryd y camau cyntaf tuag at ymuno â darpariaeth addysg bellach a mynychu cyfweliadau swyddi. Roeddent hefyd yn cyfeirio rhieni at wasanaethau eraill fel meddygon, deintyddion, a'r heddlu.

4.45 Roedd yr ymgysylltiad a'r gwaith cymorth i rieni a ariannwyd gan GADBC yn digwydd ochr yn ochr â gweithgareddau penodol a gynlluniwyd i atgyfnerthu gallu rhieni i gefnogi datblygiad eu plant. Mae'r agwedd hon ar y gwaith wedi cynnwys helpu rhieni i ddatblygu eu sgiliau mewn meysydd fel:

- bwyta'n iach/deiet
- defnydd priodol o ddymis
- ymdrin â thyndra rhwng brodyr a chwiorydd
- dangos i rieni sut y gallent ddefnyddio adnoddau chwarae yn y cartref i helpu eu plant i wneud cynnydd yn eu datblygiad.

*Synergedd gyda'r GAD*

4.46 Roedd y trafodaethau gyda chynrychiolwyr ysgol wedi awgrymu fod synergedd sylweddol yn y ffordd y mae'r GADBC a'r GAD yn cael eu deall a'u rhoi ar waith. Roedd ysgolion cynradd yn tueddu i beidio â gwahaniaethu rhwng y ddau grant er y defnyddiwyd y GADBC bob amser i ddiwallu anghenion y grŵp oedran penodol y'i bwriadwyd ar ei gyfer. Roedd ysgolion oedd yn defnyddio'r GADBC i dalu costau staff, fel arfer yn ychwanegu at hyn gydag arian o gyllideb graidd yr ysgol a/neu gan y GAD. Darparwyd enghraifft gan ysgol sy'n defnyddio peth GADBC a'r GAD i gefnogi aelod penodol o staff i ymgymryd â gwaith cyswllt teulu. Dywedodd pennaeth yr ysgol, 'Mae hyn yn golygu y gallwn weithio gyda theuluoedd a thargedu plant sydd o bosibl yn agored i niwed yn gynharach gan greu'r cysylltiadau â'u teuluoedd a'u hannog i [sicrhau bod eu plant] yn mynychu'r feithrinfa.'

**Natur y gwariant: lleoliadau nas cynhelir**

4.47 Yn achos y chwe lleoliad nas cynhelir dan sylw yn yr astudiaethau achos, hyfforddiant staff oedd y brif ffordd y defnyddiwyd y GADBC. Roedd hyn oherwydd bod yr ALlau perthnasol wedi cadw'r arian a ddyrannwyd i'r lleoliadau nas cynhelir yn ganolog a'i ddefnyddio i ddarparu sesiynau hyfforddi i staff o leoliadau nas cynhelir. Cynlluniwyd y dull hwn i gael arbedion maint, ac roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn yr ALlau a'r lleoliadau astudiaethau achos nas cynhelir yn cytuno na fyddai wedi bod yn briodol i isrannu'r swm a dalwyd i bob lleoliad. Dywedodd y rhai a gafodd gyfweliad o leoliadau nas cynhelir na fyddai wedi bod yn bosibl i'w staff gael yr hyfforddiant oni bai ei fod wedi'i ddarparu yn rhad ac am ddim. Nodwyd hefyd na fyddent yn gallu rhyddhau staff i gael hyfforddiant. Anaml y byddai ganddynt fynediad i hyfforddiant gan ALlau/CARh ac felly roedd y GADBC yn darparu cyfle da iddynt.

4.48 Fodd bynnag, mynegodd staff mewn dau leoliad nas cynhelir anesmwythyd oherwydd ar y dechrau, ni chawsant eu gwahodd i ddigwyddiadau hyfforddi a dim ond ar ôl codi’r mater gyda staff awdurdodau lleol y cawsant eu cynnwys.

4.49 Adroddodd y lleoliadau nas cynhelir fod yr hyfforddiant wedi bod yn gyfle i ddatblygu eu sgiliau. Nodir enghreifftiau isod.

- Darparu rhaglenni penodol fel NUMICON (cynllun rhifedd) a'r rhaglen SALLEY (iaith a llythrennedd)
- Hyfforddiant gan therapydd iaith ar ddatblygiad lleferydd ac iaith

- Hyfforddiant ar sut i ddefnyddio Proffiliau Cyfnod Sylfaen (asesiadau crynodol i'w cynnal er mwyn darparu dull cyson ar gyfer sgorio deilliannau'r Cyfnod Sylfaen a data cynnydd)
- Hyfforddiant ar sut i ddefnyddio adnoddau i gefnogi datblygiad y plant (a roddwyd i'r lleoliadau fel rhan o'r pecyn hyfforddiant) a ddefnyddiwyd ganddynt wedyn yn y lleoliad
- Hyfforddiant (a deunyddiau cysylltiedig) i ymgysylltu â rhieni yn well er mwyn cefnogi datblygiad eu plant.

4.50 Dywedodd cynrychiolwyr o'r lleoliadau nas cynhelir a gymerodd ran fod yr hyfforddiant a ariannwyd gan y GADBC (er enghraifft, hyfforddiant NUMICON a SALLEY) wedi rhoi syniadau newydd iddynt y gwnaethant eu rhaeadru wedyn i staff eraill o fewn eu lleoliadau. Roedd y rhan fwyaf yn teimlo bod ansawdd yr hyfforddiant wedi bod yn uchel a'i fod wedi datblygu gallu a'u cyflwyno i syniadau newydd a'u galluogi i gymryd rhywfaint o waith presennol i ddimensiwn newydd.

4.51 Fodd bynnag, holodd ychydig o'r rhai a gafodd gyfweliad mewn lleoliadau nas cynhelir a oedd yr hyfforddiant a gynigiwyd iddynt yn briodol ac roeddent yn teimlo nad oedd wedi mynd i'r afael â'r themâu yr oeddent am fynd ar eu trywydd. Er enghraifft, dywedodd pennaeth un lleoliad nas cynhelir y byddai hyfforddiant mewn ymgysylltu â rhieni wedi bod yn fwy buddiol iddynt na hyfforddiant ar NUMICON (a gynlluniwyd ar gyfer plant o oed meithrin i fyny), gan fod y cyfwelai o'r farn fod cynnwys y rhaglen honno y tu hwnt i gyrraedd plant tair oed.

4.52 Roedd nifer bach o leoliadau nas cynhelir wedi cael cyllid i brynu adnoddau ychwanegol. Roeddent wedi defnyddio hyn at nifer o ddibenion, gan gynnwys: offer ar gyfer plant a thempledi y gellid eu defnyddio i greu llyfrynnau i rieni i'w helpu i ddeall sut yr oedd y lleoliad yn gweithio ac i gefnogi datblygiad eu plant.

**Ffynonellau o gymorth ac arweiniad a ddefnyddiwyd gan leoliadau**

4.53 Rhestrodd yr arolwg rai o'r ffynonellau o gymorth ac arweiniad sydd ar gael i helpu ysgolion/lleoliadau i ddefnyddio'r GADBC a gofyn pa rai oeddent wedi'u defnyddio. Dangosir eu hymatebion yn Nhabl 5.

**Tabl 5: Ffynonellau o gymorth ac arweiniad a ddefnyddiwyd**

| Ffynhonnell | % |
|---|---|
| Canllawiau Llywodraeth Cymru ar sut i ddefnyddio'r GADBC | 85 |
| Staff blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol | 74 |
| Help gan ysgolion/lleoliadau eraill | 73 |
| Siart llif Grant Amddifadedd Disgyblion Llywodraeth Cymru | 69 |
| Staff eraill awdurdodau lleol | 68 |
| Pecyn Cymorth Blynyddoedd Cynnar SGA/Ymddiriedolaeth Sutton | 65 |
| Consortia rhanbarthol | 64 |
| Ymgynghorydd arbenigol | 45 |
| Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) | 43 |
| Cymorth/arweiniad arall | 44 |
| Dim ymateb | 7 |

N = 376
Gellid rhoi mwy nag un ateb felly nid yw'r canrannau yn adio i 100. Atebodd cyfanswm o 369 o ymatebwyr o leiaf un eitem.
Ffynhonnell: Arolwg NFER o Leoliadau Blynyddoedd Cynnar Cymru.

4.54 Canllawiau Llywodraeth Cymru ar y GADBC oedd y ffynhonnell cymorth a ddefnyddiwyd gan y rhan fwyaf o leoliadau. Graddiwyd hyn hefyd fel y mwyaf defnyddiol (gweler Atodiad 1 am ragor o wybodaeth ar sgoriau defnyddioldeb).

4.55 Ffynonellau eraill o wybodaeth neu gymorth a ddefnyddiwyd gan y rhan fwyaf o leoliadau blynyddoedd cynnar oedd: Staff ALlau (blynyddoedd cynnar a staff eraill); ysgolion/lleoliadau eraill; siart llif Llywodraeth Cymru ynghylch y Grant Amddifadedd disgyblion; Pecyn Cymorth Blynyddoedd Cynnar SGA/Ymddiriedolaeth Sutton; a CARh.

4.56 Nododd lleiafrif sylweddol o leoliadau hefyd eu bod wedi defnyddio ffynonellau eraill o gymorth ac arweiniad. (Ni wnaeth yr arolwg ofyn am unrhyw wybodaeth bellach am y rhain.)

4.57 Roedd sawl gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn gan wahanol fathau o leoliad ac ymatebwyr o leoliadau oedd yn defnyddio gwahanol gyfryngau iaith. Nodir y rhain isod.

- Roedd cyfran uwch o'r lleoliadau a gynhelir (95 y cant) wedi defnyddio canllaw Llywodraeth Cymru o gymharu ag ysgolion meithrin (86 y cant) a lleoliadau nas cynhelir (67 y cant).
- Roedd cyfran is o'r lleoliadau nas cynhelir (17 y cant) yn defnyddio y Pecyn Cymorth Blynyddoedd Cynnar SGA/Ymddiriedolaeth Sutton i'w helpu i ddefnyddio'r GADBC o gymharu ag ysgolion meithrin a gynhelir (59 y cant). Ysgolion oedd fwyaf tebygol o ddweud eu bod wedi defnyddio'r adnodd hwn (76 y cant).
- Roedd cyfran is o'r lleoliadau nas cynhelir (17 y cant) wedi defnyddio cefnogaeth gan y CARh i helpu i ddefnyddio GADBC, o gymharu ag ysgolion meithrin a gynhelir (56 y cant) neu ysgolion (75 y cant).
- Roedd cyfran is o'r lleoliadau nas cynhelir (17 y cant) wedi defnyddio ymgynghorydd arbenigol i roi cyngor iddynt ar GADBC, o gymharu ag ysgolion meithrin a gynhelir (47 y cant) neu ysgolion (51 y cant).
- Roedd cyfran uwch o ysgolion a gynhelir ac ysgolion meithrin (77 a 68 y cant yn y drefn honno) wedi defnyddio siart llif Grant Amddifadedd Disgyblion Llywodraeth Cymru na lleoliadau nas cynhelir (29 y cant).

4.58 Roedd rhai cysylltiadau ystadegol arwyddocaol pellach rhwng y math o leoliad a'u barn ynghylch pa mor ddefnyddiol oedd y cymorth a gafwyd.

- O'r rhai a oedd wedi derbyn cymorth[7] gan staff blynyddoedd cynnar ALlau, nododd 83 y cant o'r lleoliadau nas cynhelir fod hyn yn ddefnyddiol/defnyddiol iawn[8] o'i gymharu â 52 y cant o ysgolion meithrin a gynhelir a 36 y cant o ysgolion.
- O'r rhai a oedd wedi derbyn cymorth gan staff blynyddoedd cynnar ALlau, nododd 76 y cant o'r lleoliadau nas cynhelir fod hyn yn ddefnyddiol/defnyddiol iawn o'i gymharu â 33 y cant o ysgolion a 52 y cant o ysgolion meithrin a gynhelir.

[7] Roedd y dadansoddiad hwn yn cynnwys yr holl rai a nododd eu bod wedi defnyddio'r ffynhonnell cymorth/arweiniad, heb gynnwys 'heb ei ddefnyddio' a dim ymateb. Cafodd y sgoriau defnyddioldeb ar raddfa pum pwynt lle 1 = ddim yn ddefnyddiol o gwbl a 5 = defnyddiol iawn eu grwpio yn ddim yn ddefnyddiol (sgôr o 1 neu 2), peth defnydd (3) a defnyddiol (4 neu 5) (gweler Atodiad 1).
[8] Mae hyn yn cyfeirio at sgôr o 4 neu 5 ar raddfa pum pwynt.

- O'r rhai a oedd wedi derbyn cymorth gan Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC), nododd 64 y cant o'r lleoliadau nas cynhelir fod hyn yn ddefnyddiol/defnyddiol iawn o'i gymharu â 33 y cant o feithrinfeydd a 13 y cant o ysgolion.[9]

4.59 I grynhoi, mae'r canfyddiadau hyn yn awgrymu bod y rhan fwyaf o leoliadau yn defnyddio amrywiaeth o gymorth ac arweiniad ond bod lleoliadau nas cynhelir yn llai tebygol o ddefnyddio sawl ffynhonnell o arweiniad a chymorth am GADBC nag ysgolion meithrin a gynhelir neu ysgolion. Fodd bynnag, roedd lleoliadau nas cynhelir yn fwy tebygol o farnu'r cymorth a gawsant gan staff blynyddoedd cynnar ALlau, staff eraill a AGGCC fel defnyddiol/defnyddiol iawn na staff mewn lleoliadau a gynhelir.

4.60 Roedd un gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn yr ymatebion i'r cwestiwn hwn gan wahanol fathau o leoliad yn defnyddio gwahanol gyfryngau iaith.

- Roedd cyfran is o'r lleoliadau cyfrwng Saesneg (49 y cant) a lleoliadau cyfrwng Saesneg gyda rhai elfennau dwyieithog (33 y cant) wedi defnyddio cymorth gan ymgynghorydd arbenigol i'w helpu i ddefnyddio'r GADBC, o'i gymharu â lleoliadau cyfrwng Cymraeg a Saesneg (53 y cant) a lleoliadau cyfrwng Cymraeg (65 y cant).

4.61 Yn ystod y cyfweliadau astudiaeth achos, dywedodd rhai o'r ysgolion a gafodd gyfweliad eu bod wedi dilyn eu hasesiad eu hunain o angen a bod ganddynt eisoes ddarlun clir o'u blaenoriaethau ar gyfer gweithio gyda phlant o gartrefi incwm isel. Roedd hyn oherwydd roedd gwaith diagnostig i benderfynu sut y byddent yn defnyddio'r GAD wedi nodi blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd cynnar ac roedd y GADBC yn helpu ysgolion i fynd i'r afael â'r materion hynny. Cyfeiriodd y rhai yr oeddent wedi defnyddio cymorth at gyngor gwerthfawr a ddarparwyd gan y CARh a siart llif Llywodraeth Cymru. Dywedodd nifer bach o'r lleoliadau yr ymwelwyd â hwy (ysgolion meithrin yn bennaf) eu bod wedi cysylltu â lleoliadau eraill ac wedi rhannu arfer â nhw.

[9] Nawr yn dwyn yn enw Arolygiaeth Gofal Cymru (CIW).

### Manteision ac anfanteision y GADBC

*Manteision y GADBC*

4.62 Gofynnodd yr arolwg am fanteision ac anfanteision y GADBC. Roedd y cwestiwn ar fanteision yn darparu nifer o opsiynau, ynghyd â chyfle i leoliadau adrodd am fanteision eraill yn ddigymell. Dangosir yr ymatebion i'r cwestiwn hwn yn Nhabl 6.

**Tabl 6: Beth fyddech chi'n ei ddweud fu prif fanteision y GADBC?**

| Manteision | % |
|---|---|
| Dechrau ar y gwaith gyda phlant o gefndiroedd dan anfantais flwyddyn yn gynharach | 57 |
| Hyblygrwydd yn y ffyrdd y gallem ei ddefnyddio | 52 |
| Galluogi staff i gael eu hyfforddi i weithio gyda phlant o gefndiroedd difreintiedig | 47 |
| Ein galluogi i weithio (mwy) gyda theuluoedd | 36 |
| Ein galluogi i gydweithio ag ysgolion/lleoliadau eraill i ddefnyddio'r GADBC | 13 |
| Mantais arall | 8 |
| Dim ymateb | 5 |

N = 376
Gellid rhoi mwy nag un ateb felly nid yw'r canrannau yn adio i 100.
Ffynhonnell: Arolwg NFER o Leoliadau Blynyddoedd Cynnar Cymru.

4.63 Mae'r tabl yn dangos bod mwyafrif y lleoliadau (57 y cant) yn nodi mai prif fantais y GADBC oedd gallu dechrau gweithio gyda phlant o gefndiroedd dan anfantais flwyddyn yn gynharach. Roedd lleoliadau hefyd yn gwerthfawrogi'r ffaith eu bod yn gallu defnyddio'r GADBC yn hyblyg i gefnogi plant difreintiedig a'r cyfle i hyfforddi staff ar weithio gyda phlant o gefndiroedd difreintiedig.

4.64 Roedd un gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn yr atebion i'r cwestiwn hwn yn ôl math o leoliad: roedd llai o leoliadau nas cynhelir (31 y cant) wedi nodi 'dechrau gwaith gyda'r plant o gefndiroedd difreintiedig flwyddyn yn gynharach' nag ysgolion meithrin (59 y cant) neu ysgolion (62 y cant).

4.65 Gwnaeth yr wyth y cant o leoliadau (30 o ymatebwyr) a nododd fantais arall amrywiaeth eang o awgrymiadau, a'r mwyaf cyffredin o'r rhain oedd: darparu adnoddau ychwanegol; galluogi ymyrraeth gynharach; a'r gallu i gynorthwyo plant 'agored i niwed'.

4.66 Datgelodd y cyfweliadau astudiaeth achos bod y rhan fwyaf o'r rhai a gafodd gyfweliad yn teimlo nad oedd eto'n bosibl nodi effaith y gwaith a ariannwyd drwy'r GADBC. Roedd hyn yn rhannol oherwydd dim ond ers cyfnod byr yr oedd y GADBC

wedi bod mewn bodolaeth ac oherwydd efallai y byddai effaith y gwaith hwnnw dim ond yn cael ei gweld yn ddiweddarach mewn addysg plentyn. Dywedodd y rhai a gafodd gyfweliad y bydd sgiliau cymdeithasol yn cymryd amser i ddatblygu ac y dylai effaith gwaith i ddatblygu sgiliau gwrando a siarad plant ddod yn amlwg wrth i'r plant symud ymlaen drwy'r ysgol. Roedd un pennaeth ysgol a gynhelir yn disgwyl i'r buddsoddiad ddangos ei werth dros y tymor hwy o ran ymddygiad y plant, yn dweud bod staff yn disgwyl 'gweld y plant yn llai aflonyddgar ar ddechrau eu haddysg''.

4.67 Roedd rhan fwyaf y lleoliadau a gynhelir yn cydnabod nad oedd y gwaith a ariannwyd gan y GADBC wedi'i ymgorffori'n ddigonol er mwyn llunio barn bendant am ei effaith. Ar yr un pryd fodd bynnag, roedd y rhai a gafodd gyfweliad yn hyderus y byddai'r gwaith a gefnogir gan y GADBC yn arwain at fanteision cadarnhaol i blant o gefndiroedd difreintiedig. Cyfeiriwyd at dystiolaeth ymchwil ehangach ynghylch effeithiolrwydd dulliau megis gwaith i ddatblygu sgiliau cymdeithasol y plant, llafaredd, sgiliau personol, a rhaglenni i gefnogi sgiliau rhianta, i gefnogi'r achos dros weithredu'r strategaethau o'u dewis.

4.68 Roedd cyfweleion o'r lleoliadau a gynhelir yn teimlo mai un o brif fanteision y GADBC oedd ei fod wedi helpu i godi proffil plant o gefndiroedd difreintiedig. Er hynny, roedd yr ysgolion yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r gwaith astudiaeth achos yn pwysleisio mai'r GAD yn eu barn nhw oedd prif sbardun eu gwaith yn hyn o beth. Pwysigrwydd y GADBC oedd ei fod wedi canolbwyntio eu meddyliau llawer mwy ar anghenion y plant iau. Roedd meithrinfeydd a lleoliadau nas cynhelir yn cytuno fod y GADBC wedi eu arwain i ganolbwyntio ymhellach ar y grŵp hwn o ddysgwyr. Roedd hyn oherwydd bod yr hyfforddiant proffesiynol a'r gwaith codi ymwybyddiaeth a gafwyd gyda'r GADBC wedi eu hannog i roi sylw arbennig i blant penodol (megis y rhai yr oedd eu brodyr a'u chwiorydd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim).

4.69 Roedd lleoliadau o bob math yn credu fod y GADBC yn cynnig ffordd o nodi anghenion ac ymyrryd yn gynnar mewn taith plentyn drwy'r system addysg. Roeddent o'r farn y gellid sicrhau bod plant ar y trywydd iawn (ac atal problemau rhag gwaethygu) drwy roi'r ymyriadau a'r cymorth priodol ar waith yn ystod y blynyddoedd cynnar.

4.70 Roedd cyfweleion yn teimlo fod y GADBC wedi gwneud cyfraniad pwysig i ddatblygiad staff drwy fireinio'u harbenigedd i gynorthwyo plant a chanolbwyntio ar waith i ddatblygu eu sgiliau siarad a gwrando, a'u sgiliau cymdeithasol. Roedd hyn

yn cynnwys cynnal arsylwadau a gwaith arall i asesu anghenion y plant a darparu cymorth arbennig neu becynnau pwrpasol (er enghraifft, llafaredd) mewn ymateb i'r anghenion hynny.

4.71 Rhoddodd cyfweleion enghreifftiau lle y gwelwyd bod gwaith GADBC wedi gwella sgiliau creadigol y plant, a lle roedd plant yn fwy hyderus am ymwneud â phlant eraill oherwydd roedd aelod o staff wedi gweithio gyda hwy i ddatblygu'r hyder a'r sgiliau angenrheidiol. Er enghraifft, nododd cynrychiolydd ysgol feithrin;

> 'Mae'r gwelliant yn eu sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol yn braf iawn ei weld. ... Yr ydym yn falch iawn o'r effaith y mae'r adnodd yn ei chael ar sgiliau cyfathrebu a sgiliau cymdeithasol y plant. Mae'n braf iawn eu gweld yn awr yn cymryd eu tro.'

4.72 Teimlai staff yr ysgolion fod y cysylltiad â Dechrau'n Deg wedi gwella am fod y GADBC wedi galluogi ysgolion i ryddhau staff i weithio'n fwy agos gyda darparwyr Dechrau'n Deg. Mae hyn wedi cynyddu'r cyfathrebu rhyngddynt a gwella'r prosesau pontio drwy ganiatáu trafodaethau mwy manwl ynghylch plant unigol a'u hanghenion. Fel y nododd cynrychiolydd o un o'r lleoliadau a gynhelir 'roedd cael y corff ychwanegol wedi cael effaith fawr' oherwydd roedd mwy o ddeialog rhwng ymarferwyr nag oedd wedi digwydd cyn y GADBC. Adroddodd y lleoliadau a gynhelir eraill bod y GADBC wedi cael effaith gyfyngedig ar ansawdd eu gwaith pontio oherwydd roedd hwn eisoes yn faes o gryfder iddynt.

4.73 Awgrymodd lleiafrif o'r rhai a gafodd gyfweliad o leoliadau nas cynhelir fod y gwaith a gefnogwyd gan y GADBC wedi helpu i gryfhau prosesau pontio. Er enghraifft, disgrifiodd un aelod o staff sut yr oeddent wedi cwrdd ag athro'r dosbarth Derbyn i drafod proffil y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, nid oedd hyn yn arfer cyffredin a dywedodd sawl lleoliad nas cynhelir y teimlent nad oedd yr ysgolion yr oedd eu plant wedi mynychu wedyn yn gwneud llawer o ddefnydd o'r wybodaeth yr oeddent wedi'i chasglu. Dywedodd rhai hefyd fod ysgolion wedi ailadrodd gweithgareddau asesu heb gyfeirio at wybodaeth a ddarparwyd gan y lleoliadau blynyddoedd cynnar.

4.74 Roedd lleoliadau a gynhelir yn adrodd bod teuluoedd wedi dod yn fwy parod i ymgysylltu â bywyd ysgol a bod ansawdd eu perthynas wedi gwella o ganlyniad i waith rhianta penodol a ariannwyd gan y GADBC. Er enghraifft, disgrifiwyd sut yr

oedd rhieni yn fwy tebygol o ymweld ag ysgol neu siarad â staff wrth ddanfon neu gasglu eu plant. Cyfeiriwyd hefyd at dystiolaeth ansoddol bod:

- sgiliau rhianta wedi gwella
- roedd rhieni yn fwy ymwybodol o ble y gallent gael gafael ar gyngor ar faterion fel cyllidebu a budd-daliadau
- roedd teuluoedd yn cynnig cefnogaeth i deuluoedd eraill, mwy agored i niwed.

4.75 Fodd bynnag, roedd llawer o leoliadau a gynhelir yn mynnu bod eu gwaith i gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig (gan gynnwys ymyrraeth gynnar, gwaith gyda grwpiau bach o blant, cysylltiadau â Dechrau'n Deg, pontio, a rhaglenni rhianta/teulu) yn ei ddyddiau cynnar a bod angen mireinio'r hyn maent yn ei wneud yng ngoleuni profiad.

4.76 Roedd lleoliadau astudiaethau achos nas cynhelir yn teimlo bod yr hyfforddiant a ariannwyd drwy'r GADBC wedi cael effaith gadarnhaol ar eu lleoliadau. Disgrifiwyd sut maent wedi defnyddio syniadau o'r hyfforddiant i ychwanegu at yr hyn yr oeddent yn ei wneud eisoes. Sylw cynrychioliadol oedd: 'Roedd yr hyfforddiant yn ddefnyddiol oherwydd galluogodd ni i fyfyrio a siarad â lleoliadau eraill [fel arall]... rydych chi'n teimlo'n ynysig yn eich lleoliad eich hun.'

*Anfanteision y GADBC*

4.77 Roedd yr arolwg yn cynnwys cwestiwn ymateb agored yn gofyn am brif anfanteision y GADBC. Ymatebodd cyfanswm o 156 o bobl (41 y cant) i'r cwestiwn hwn. Roedd eu sylwadau yn cwmpasu amrywiaeth o faterion, a'r mwyaf cyffredin ohonynt oedd bod gwerth y GADBC yn annigonol i gefnogi dysgu plant difreintiedig.

4.78 Roedd hyn yn ymddangos yn fater penodol ar gyfer lleoliadau gyda nifer bach o blant o gefndiroedd difreintiedig, fel y dywedodd un ymatebydd: 'Fel ysgol sydd â lefelau amddifadedd isel, nid ydym mewn gwirionedd yn cael digon o arian i wneud gwahaniaeth mawr i'r plant sydd ei angen.' Nododd rhai ysgolion fod y £300 y plentyn yn cymharu'n anffafriol â gwerth y GAD (£1,150 fesul plentyn).

4.79 Cwynodd nifer o ymatebwyr i'r arolwg o leoliadau nas cynhelir fod yr ALl wedi penderfynu beth i'w wneud â'r arian yn hytrach na'i ddosbarthu i'w lleoliadau. Fel y dywedodd un:

> Mae'n ymddangos bod y cwestiynau yn tybio ein bod wedi derbyn y grant yn y lleoliad. Fodd bynnag, cyn belled ag yr wyf yn ymwybodol rhoddodd yr awdurdod lleol y grant i'n Partneriaethau Datblygiad Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant a threfnon nhw ddigwyddiad hyfforddi i ni a phrynu pecyn Numicon fel adnodd ar gyfer y grŵp. Byddai'n well gennyf i fod wedi cael gwybod yn union faint oedd y grant a dewis i ble roedd yr arian ar gyfer fy ngrŵp yn mynd drwy ymgynghori â fy staff a'r Pwyllgor. (Ymateb i'r arolwg gan reolwr lleoliad nas cynhelir).

4.80 Roedd rhai ymatebwyr yn codi materion gyda'r defnydd o e-FSM i fod yn gymwys ar gyfer y GADBC. Roedd y rhain yn cynnwys: anhawster cael rhieni i gofrestru ar gyfer e-FSM a'r ffaith nad oedd rhai rhieni oedd yn gweithio ac yn derbyn tâl isel yn gymwys. Dywedodd rhai fod gan blant heblaw y rhai oedd yn gymwys ar gyfer y GADBC hefyd anghenion cymorth ychwanegol.

4.81 Nododd rhai ymatebwyr hefyd bod yr amrywiadau yn y swm a gawsant yn ei gwneud yn anodd i ddefnyddio'r GADBC yn effeithlon neu gynllunio ymlaen llaw. Dywedodd un ymatebydd:

> 'Gan nad yw'r swm o arian yn gyson [nid oes gennym] y gallu i gynllunio. E.e. yn ystod y flwyddyn gyntaf yr oeddwn yn gallu ariannu athro ymgysylltu rhieni am ddau ddiwrnod yr wythnos. Eleni nid oes digon o gyllid i barhau â hynny hyd yn oed am hanner diwrnod yr wythnos.' (Ymateb i'r arolwg gan reolwr lleoliad nas cynhelir).

4.82 Nododd y rhai a gafodd gyfweliad yn yr astudiaethau achos ychydig o anfanteision y GADBC, ac ategodd y rheini yr ymatebion i'r arolwg. Y prif gyfyngiad a amlygwyd gan y rhai a gafodd gyfweliad mewn lleoliadau a gynhelir oedd eu pryder am ei gynaliadwyedd a beth fyddai'n digwydd pe byddai'r cyllid yn cael ei dynnu yn ôl. Nododd bod hyn yn bryder am waith arall a oedd yn cael ei ariannu gan grantiau (yn arbennig y GAD) a nodwyd nifer y swyddi a rhaglenni penodol neu brosiectau a ariannwyd gyda'r grantiau hyn.

4.83 Roedd rhai a gafodd gyfweliad yn cwestiynu dibynadwyedd eFSM fel procsi ar gyfer amddifadedd. Nododd eraill fod rhai o'r teuluoedd oedd yn defnyddio eu lleoliadau yn 'ffiniol' o ran bod yn gymwys ar gyfer prydau ysgol am ddim ac nad oedd y system yn gyffredinol yn cwmpasu eu hanghenion.

4.84 Dywedodd rhai a gafodd gyfweliad o ysgolion meithrin a gynhelir eu bod wedi gorfod hawlio'r GADBC gan yr ALlau ar ôl iddo gael ei ddefnyddio. Roedd hyn yn golygu eu bod wedi gorfod cymryd risg gan dybio yn byddai'r arian yn cael ei ad-ennill ac roedd yr arfer hwn wedi creu problemau llif arian iddynt[10].

[10] Sylwer bod yn rhaid talu'r grant yn llawn i leoliadau a gynhelir.

## 5. Enghreifftiau o arfer gorau sy'n dod i'r amlwg

5.1 Fel y nodwyd ym Mhennod 2 cynhyrchodd Llywodraeth Cymru nifer o ddogfennau arweiniad i gefnogi ymarferwyr yn eu defnydd o arian GADBC. Mae'r bennod hon yn archwilio i ba raddau y mae'r canllawiau hyn wedi dylanwadu ar arferion yn yr 20 o leoliadau astudiaeth achos. Mae'n cynnwys enghreifftiau manwl, sy'n disgrifio arferion a welwyd mewn lleoliadau astudiaeth achos i dynnu sylw at ddulliau penodol.

Pwyntiau allweddol ar arfer gorau sy'n dod i'r amlwg

- Roedd y modd y defnyddiodd y lleoliadau astudiaeth achos arian GADBC yn cyd-fynd â chanllawiau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru. Roedd CARh a staff ALlau yn chwarae rôl bwysig yn cynorthwyo lleoliadau i ddatblygu strategaethau a dewis ymyriadau a oedd wedi'i nodi fel arfer da. Roedd lleoliadau hefyd yn datblygu eu prosesau monitro a gwerthuso eu hunain.
- Roedd hyfforddiant staff wedi tynnu sylw at yr angen i gefnogi plant o deuluoedd incwm isel i gyflawni eu potensial ac roedd yn cynyddu'r capasiti o fewn lleoliadau i gyflawni strategaethau effeithiol mewn ymateb i anghenion y grŵp hwn o blant.
- Roedd sawl lleoliad yn gweithredu rhaglenni rhianta a theulu. Roedd y rhain yn canolbwyntio ar ymgysylltu â rhieni, datblygu perthnasoedd cadarnhaol, helpu rhieni i gefnogi datblygiad eu plant a chyfeirio rhieni at ffynonellau eraill o gymorth a gwasanaethau.
- Mewn rhai achosion roedd y gwaith a ariannwyd gan y GADBC wedi cryfhau trefniadau pontio o ddarpariaeth blynyddoedd cynnar i mewn i'r system ysgol.
- Roedd lleoliadau'n ymgysylltu â darparwyr gwasanaeth eraill fel rhan o ddull aml-asiantaeth i gwrdd ag anghenion plant o gefndiroedd incwm isel. Yn benodol, roedd rhai wedi meithrin cysylltiadau agosach gyda Dechrau'n Deg neu wedi adeiladu ar gydweithio effeithiol a oedd eisoes yn bodoli.

*Ymwybyddiaeth a defnydd o'r arweiniad*

5.2 Fel y nodwyd ym Mhennod 2, yn ystod ymchwil yr astudiaethau achos dywedodd arweinwyr mewn lleoliadau eu bod yn defnyddio amrywiaeth o ganllawiau (gan gynnwys siart llif GAD Llywodraeth Cymru a deunyddiau a gynhyrchir gan Estyn a CARh) wrth gynllunio eu defnydd o'r GADBC. Roedd hyn yn dylanwadu ar y math o

ddulliau a ddatblygwyd a oedd yn cynnwys newid addysgeg, gweithio gyda rhieni, meithrin cysylltiadau agosach â darparwyr gwasanaethau cyhoeddus eraill, a hyfforddiant staff a datblygiad proffesiynol.

5.3 Ymhellach, roedd yr egwyddorion sy'n sail i chwe thema a amlinellir yn arweiniad 'Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar' LIC yn amlwg yn yr arfer a ddisgrifiwyd gan y lleoliadau astudiaeth achos. Nid oedd lleoliadau a gynhelir (gan gynnwys ysgolion meithrin a gynhelir) yn nodi unrhyw gyfyngiadau mawr o ran dilyn yr arweiniad a theimlent ei fod wedi'i alinio'n dda â'r arweiniad GAD ehangach. Roedd y lleoliadau nas cynhelir yn cael llai o ryddid i ddewis oherwydd bod ALlau wedi defnyddio'r GADBC i ddarparu hyfforddiant. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth bod arferion yr oedd wedi'u gweithredu yn dilyn hyfforddiant yn canolbwyntio ar rai o'r meysydd o ran materion arfer a amlygwyd yn yr arweiniad 'Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer y blynyddoedd cynnar'

5.4 Mae'r graddau y mae'r arferion hyn wedi'u hymgorffori ar draws pob lleoliad, a'i effaith, yn faterion y bydd angen eu hystyried ymhellach mewn unrhyw werthusiad o'r GADBC yn y dyfodol.

*Datblygiad proffesiynol i fynd i'r afael ag effeithiau amddifadedd*

5.5 Canfu'r gwerthusiad dystiolaeth fod lleoliadau wedi defnyddio y GADBC i ddatblygu dealltwriaeth a sgiliau staff i fynd i'r afael ag effaith amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol ac ar gyfleoedd bywyd plant yn fwy cyffredinol.

5.6 Datblygwyd gallu staff i gyflwyno rhaglenni cymorth ac i gynnal gwaith manwl gyda grwpiau bach o blant. Roedd hyfforddiant o'r fath wedi bod yn brif ffocws y gwaith a ariannwyd gan y GADBC mewn lleoliadau nas cynhelir ac roedd hefyd yn amlwg mewn meithrinfeydd ac ysgolion a gynhelir. Roedd llawer o'r gwaith hwn yn canolbwyntio ar gefnogi lleferydd ac iaith a sgiliau cyfathrebu plant yn ogystal â gwaith i feithrin sgiliau personol a chymdeithasol y plant.

5.7 Roedd y datblygu staff hwn eisoes yn cael effaith ar allu rhai lleoliadau i ymateb i anghenion plant o gefndiroedd incwm isel: adroddodd lleoliadau bod eu staff wedi gallu datblygu sgiliau a dealltwriaeth yr oedd eu hangen er mwyn cymryd cyfrifoldeb ar gyfer gwaith gyda grwpiau bach o blant a'u bod wedi caffael dealltwriaeth well o sut i fonitro a nodi canlyniadau gwaith.

5.8 Roedd y datblygiad proffesiynol hwn yn dylanwadu ar ddulliau addysgeg lleoliadau mewn tair ffordd wahanol:

1. Anogodd nhw i edrych ar dystiolaeth o'r hyn sy'n gweithio i gefnogi plant o gefndiroedd incwm isel i gyflawni eu potensial.
2. Datblygodd eu gallu i gyflawni ymyriadau penodol yn effeithiol.
3. Datblygodd gapasiti ar gyfer myfyrio proffesiynol yn fwy cyffredinol.

*Defnyddio ymyriadau sy'n seiliedig ar dystiolaeth*

5.9 Adroddodd lleoliadau astudiaethau achos eu bod wedi seilio eu penderfyniadau ynghylch pa strategaethau i'w defnyddio i raddau helaeth ar y dystiolaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru, CARh, ac Estyn. Roedd yr adnoddau hyn yn darparu gwasanaeth cyfeirio at dystiolaeth o arfer da ac yn darparu enghreifftiau lle roedd gwahanol strategaethau wedi'u defnyddio'n llwyddiannus i gefnogi plant o deuluoedd incwm isel i gyflawni eu potensial. Adroddodd lleoliadau a gynhelir a meithrinfeydd a gynhelir fod rôl allweddol gan staff CARh, yn benodol eu Hymgynghorwyr Her, wrth nodi'r strategaethau sy'n seiliedig ar dystiolaeth a'u trafod gyda'r lleoliadau.[11] Rhoddodd pennaeth ysgol gynradd un enghraifft o hyn:

> 'Cynhaliwyd trafodaethau clwstwr yn [enw'r dref] fel rhan o'n trafodaethau cydweithredol am yr hyn sy'n gweithio … Mae'r Ymgynghorydd Her yn monitro ac yn ymddiddori yn hyn gan ei fod yn ffordd o ddwyn pethau yn agosach at ei gilydd a chael mwy o synergedd mewn dulliau.' (Pennaeth ysgol gynradd)

5.10 Yn yr un modd, dywedodd lleoliadau nas cynhelir fod yr hyfforddiant a ddarparwyd gan ALlau wed cyfeirio at arfer effeithiol a oedd wedi'i ddilysu'n allanol.

5.11 Yn ogystal, canfu'r ymchwil fod lleoliadau wedi datblygu eu sylfaen dystiolaeth eu hunain am yr hyn sy'n gweithio mewn gwahanol sefyllfaoedd. Roedd lleoliadau'n defnyddio systemau tracio presennol i nodi anghenion dysgwyr unigol. Rhoddodd y staff enghreifftiau o sut roeddent yn defnyddio'r wybodaeth i lywio penderfyniadau ynghylch sut i gefnogi dysgwyr, a dweud eu bod yn adolygu eu haddysgeg yn unol â hynny.

5.12 Mabwysiadodd lleoliadau ymyriadau i helpu plant o gefndiroedd incwm isel i ddatblygu eu sgiliau a'u hyder. Fel y soniwyd ym Mhennod 2, cafwyd tystiolaeth bod

[11] Prif rôl yr Ymgynghorwyr Her yw datblygu capasiti mewn ysgolion i ysgogi a chynnal eu gwelliant eu hunain er mwyn codi safonau a darparu darpariaeth addysgol o ansawdd uchel. Cafodd y rôl ei chreu ar y cyd rhwng Llywodraeth Cymru a'r Consortia Rhanbarthol ac mae wedi'i hamlinellu yn y safonau cenedlaethol.

lleoliadau yn defnyddio'r GADBC i gynorthwyo plant i ddatblygu'r sgiliau a'r hyder i fod yn ddysgwyr gweithredol, hunangyfeiriedig.

5.13 Roedd sawl lleoliad astudiaethau achos wedi defnyddio'r GADBC er mwyn galluogi staff i weithio gyda grwpiau bach o blant er mwyn rhoi iddynt y gefnogaeth unigol yr oedd ei hangen arnynt er mwyn datblygu eu lleferydd ac iaith a sgiliau personol a chymdeithasol. Rhoesant enghreifftiau lle y mae’r GADBC wedi galluogi athrawon neu CALU i gael eu rhyddhau i ganolbwyntio ar y gwaith hwn. Roedd y dull hwn yn fwy amlwg mewn ysgolion nag mewn meithrinfeydd a gynhelir a'r lleoliadau nas cynhelir yr ymwelwyd â hwy. Cyflwynir un enghraifft o'r dull hwn yn yr astudiaeth achos isod.

*Enghraifft 1: Teilwra'r ddarpariaeth i ddiwallu anghenion plant*

Mae gan yr ysgol gynradd hon dros 300 o blant, y mae dau o bob pump ohonynt yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi cael swm sylweddol o arian GAD a GADBC sydd wedi'i galluogi i ddyblu ei lefelau staffio.

Disgrifiodd staff eu systemau tracio fel rhai 'cadarn', sy’n eu galluogi i nodi plant o gefndiroedd incwm isel er mwyn sefydlu pa fath o gymorth yr oedd ei angen. Adeiladodd staff ar eu cysylltiadau â Dechrau'n Deg i sefydlu gwaelodlin ar gyfer plant wrth iddynt ddechrau yn yr ysgol yn dair oed. Roedd y system dracio yn casglu tystiolaeth o gynnydd plant mewn dysgu. Roedd staff wedi datblygu system dracio bresennol yr ysgol i gofnodi dysgu plant tair blwydd oed ac ychwanegu rhai dangosyddion ychwanegol oedd yn canolbwyntio ar lesiant.

Roedd yr ysgol wedi datblygu uned meithrin-derbyn ar y cyd lle gosodwyd y plant mewn grwpiau yn ôl eu cyfnod datblygu yn hytrach na'u hoedran. Roedd y staff ychwanegol yn galluogi'r ysgol i gael grwpiau addysgu llawer llai nag y byddai'n bosibl fel arall.

Dywedodd y staff fod y GADBC a'r GAD wedi codi proffil dysgwyr o gefndiroedd difreintiedig ymhlith staff yr ysgol. Roedd eu systemau tracio yn awgrymu bod grwpiau addysgu llai wedi arwain at welliannau yn sgiliau siarad a gwrando'r plant. At hynny, roedd staff yn dadlau fod yr arfer o grwpio plant yn ôl cyfnod yn hytrach nag oed wedi helpu i wella sgiliau cymdeithasol. Nododd yr ysgol fod pob plentyn wedi cyflawni eu targedau y flwyddyn flaenorol, rhywbeth a briodolwyd yn uniongyrchol i waith ychwanegol a ariannwyd gan y GADBC.

*Gweithio gyda rhieni/gofalwyr fel partneriaid yn nysgu eu plentyn*

5.14 Roedd yr astudiaethau achos yn awgrymu bod lleoliadau yn ymgysylltu â rhieni a theuluoedd. Gwnaed sylw nodweddiadol sy'n crynhoi'r dull gweithredu a fabwysiadwyd gan lawer o'r lleoliadau gan un pennaeth, a ddywedodd:

> 'Roedd llawer o'n rhieni wedi cael profiadau negyddol yn ystod eu dyddiau ysgol. Maent bellach yn ein gweld fel amgylchedd gofalgar, cefnogol. Nid oes meddylfryd 'ni a nhw' mwyach. Mae rhwystrau wedi'u chwalu.

5.15 Defnyddiodd lleoliadau ddulliau gwahanol, a oedd wedi'u teilwra i fynd i'r afael â heriau penodol yr oeddent yn eu hwynebu. Roedd y gwaith yn cynnwys adeiladu perthnasoedd, ymgysylltu â rhieni, nodi pa gefnogaeth oedd ei hangen a'u cyfeirio at adnoddau oedd ar gael. Nod arall oedd annog rhieni i chwarae rhan lawnach wrth wella'r amgylchedd dysgu gartref a chefnogi gwaith y lleoliadau, fel yr amlinellir yn yr astudiaeth achos isod.

*Enghraifft 2: Helpu rhieni i gefnogi eu plant*

Roedd lleoliad nas cynhelir yn cael hyfforddiant a ddarparwyd gan yr ALl oedd yn ei helpu i feithrin cysylltiadau agosach gyda rhieni. Roedd gan y lleoliad dalgylch cymysg ac roedd wedi ei leoli mewn ardal wledig. Rhoddwyd i'r rhai oedd yn mynychu'r hyfforddiant chwe bag o adnoddau, pob un yn cynnwys deunyddiau i gefnogi gwaith mewn maes ffocws penodol megis llythrennedd, rhifedd, datblygiad corfforol a chyfathrebu. Ar y dechrau defnyddiwyd yr adnoddau yn y lleoliad ei hun i ymgysylltu'r plant cyn eu rhoi i'r plant i fynd adref ar sail rota. Roedd pob bag yn cynnwys o leiaf un adnodd a ddyluniwyd yn benodol i ddiwallu anghenion unigol pob plentyn.

Roedd yr hyfforddiant a roddwyd i arweinydd y lleoliad yn cynnwys canllawiau ar yr hyn yr oedd angen iddi ei wneud i alluogi rhieni i ddefnyddio'r adnoddau yn y ffordd orau. Defnyddiodd arweinydd y lleoliad yr hyfforddiant hwn i ymgysylltu â rhieni ac i drafod sut i ddefnyddio'r deunyddiau â'u plant. Rhoddodd sylw penodol i gynorthwyo rhieni unigol i ddefnyddio'r eitemau penodol a oedd wedi'u teilwra i anghenion eu plant.

Roedd hyfforddiant a gweithrediad y cynllun wedi cynyddu'r ddeialog rhwng rhieni a'r lleoliad. Roedd hefyd wedi rhoi ffocws cliriach ar yr hyn yr oedd y plant yn gallu ei wneud. Roedd hyn yn galluogi'r rhieni a'r ymarferwyr i ddatblygu dealltwriaeth fwy trylwyr o anghenion datblygiadol pob plentyn.

*Cyfuno adnoddau a gweithio ar y cyd*

5.16 O ganlyniad i'r penderfyniad a wnaed gan nifer o ALlau, roedd adnoddau wedi'u cyfnuno i ddarparu hyfforddiant i staff o leoliadau nas cynhelir. Roedd y rhai a gafodd gyfweliad o leoliadau nas cynhelir yn cydnabod manteision yr hyfforddiant ei hun a'r cyfle i gamu allan o'u lleoliad ac i drafod pethau gydag ymarferwyr eraill.

5.17 Nid oedd yr un o'r lleoliadau astudiaeth achos wedi gweithio gyda lleoliadau eraill i ddefnyddio'r GADBC, er bod ysgolion yn ceisio sicrhau synergedd rhwng y gwaith a wnaed trwy'r GADBC a'r GAD ehangach.

5.18 Er nad oedd y lleoliadau a gynhelir a gynhwyswyd yn y sampl o astudiaethau achos wedi cyfuno eu cyllidebau, roedd astudiaethau achos unigol yn darparu rhywfaint o dystiolaeth fod y gwaith a ariannwyd gan y GADBC wedi cryfhau trefniadau pontio wrth i blant symud o leoliadau blynyddoedd cynnar i'r system ysgol ffurfiol. Rhoddodd staff mewn lleoliadau enghreifftiau o ymarferwyr o leoliadau gwahanol yn cwrdd a rhannu gwybodaeth am blant a'u hanghenion. Rhoddodd lleoliadau enghreifftiau lle talwyd sylw arbennig i anghenion plant o gartrefi incwm isel yn ystod y trafodaethau hyn. Fodd bynnag, mae'n glir bod y prosesau hyn yn adlewyrchu pwyslais ehangach ar ddeialog o'r fath ac nid oedd yn ganlyniad i ddylanwad y GADBC yn unig. At hynny, roedd rhai a gafodd gyfweliad yn cwyno nad oedd ysgolion o hyd yn adeiladu digon ar brofiad staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar.

*Mabwysiadu dull aml-asiantaeth*

5.19 Nododd y gwerthusiad enghreifftiau lle'r oedd ymarferwyr oedd yn gweithio yn y Cyfnod Sylfaen yn gweithio'n agos gyda sefydliadau eraill fel rhan o ddull aml-asiantaeth i gefnogi plant o gefndiroedd incwm isel. Bu ymatebwyr yn siarad yn rheolaidd am y ffordd yr oeddent yn cydweithio gydag ymwelwyr iechyd, gweithwyr lleferydd ac iaith proffesiynol, ac ymarferwyr eraill oedd yn gweithio fel rhan o Dechrau'n Deg. Disgrifiodd hefyd sut yr oeddent yn cyfeirio rhieni at amrywiaeth o wasanaethau cymorth, gan gynnwys iechyd, yr heddlu, gwasanaethau ALlau a rhwydweithiau cymorth cymunedol megis banciau bwyd.

*Enghraifft 3: Defnyddio'r GADBC i helpu rhieni i gael gafael ar wasanaethau cymorth*

Roedd y lleoliad hwn yn ysgol feithrin a gynhelir yn darparu 80 o leoedd mewn sesiynau bore a phrynhawn mewn ardal dan anfantais economaidd. Defnyddiodd y Pennaeth y cyllid GADBC i ryddhau aelod o staff i ddatblygu rhaglen gymunedol ar gyfer rhieni. Roedd yr aelod o staff wedi sefydlu grŵp anogaeth rhieni wedi'i leoli mewn canolfannau hamdden lleol. Nod y grŵp oedd cefnogi sgiliau rhianta a helpu teuluoedd i gael mynediad at wasanaethau cymorth. Roedd y feithrinfa yn targedu teuluoedd ar incwm isel (a nodwyd drwy eu gwerthusiad eu hunain) ond gwnaethant hefyd gynnwys teuluoedd eraill oherwydd yr oeddent am i bobl o wahanol gefndiroedd gefnogi ei gilydd.

Gwnaeth yr aelod o staff gysylltiadau â deintyddion, meddygon a'r heddlu lleol ochr yn ochr ag asiantaethau oedd yn cynnig cyngor ar gyllid a budd-daliadau. Tynnodd hefyd sylw at gyfleusterau fel y gydweithfa fwyd leol. Cynyddodd y gwaith gysylltiadau'r ysgol feithrin â darparwyr allanol megis y gwasanaeth llyfrgell a oedd yn ymweld â'r ysgol i rannu adnoddau ar gyfer staff a phlant.

Roedd systemau tracio presennol yr ysgol feithrin yn dangos bod sgiliau cymdeithasol y plant wedi gwella fel y'i mesurwyd gan ddangosyddion 'meddal' megis cymryd tro, ymddygiad a sgiliau cymdeithasol eraill. Teimlwyd bod gweithgareddau a ariannwyd gan GADBC hefyd wedi cael dylanwad cadarnhaol ar sgiliau rhianta ac wedi gwella gwybodaeth rhieni am wasanaethau cymorth.

*Monitro a gwerthuso ymyriadau*

5.20 Yn y cyfweliadau astudiaeth achos gwelwyd mewn ysgolion a meithrinfeydd a gynhelir bod y penaethiaid neu uwch arweinwyr yn gyfrifol am y Cyfnod Sylfaen yn goruchwylio'r gwaith a bod ganddynt ddealltwriaeth drylwyr o'r strategaethau a ddefnyddiwyd yn eu lleoliadau. Roeddent fel arfer yn defnyddio systemau monitro presennol yr ysgol i sicrhau bod ymyriadau yn cael eu gweithredu fel y bwriadwyd ac i fesur arwyddion sy'n dod i'r amlwg o effaith. Roedd y strwythur rheoli mewn lleoliadau nas cynhelir yn llai ffurfiol/helaeth ac yn yr achosion hynny pennaeth y lleoliad oedd fel arfer yn cymryd cyfrifoldeb am gynllunio a monitro'r defnydd o GADBC.

# 6. Potensial ar gyfer gwerthuso effaith yn y dyfodol

6.1 Fel rhan o'r astudiaeth, gofynnwyd i NFER ystyried y materion canolog o ran a ellid gwerthuso effaith y GADBC yn y dyfodol. Roedd hyn yn cynnwys ystyried pa weithgarwch monitro a gwerthuso oedd yn cael ei wneud eisoes gan leoliadau a pha ganlyniadau yr oedd y lleoliadau yn gobeithio'u cyflawni â'u defnydd o'r GADBC. Mae'r bennod hon yn ystyried y materion hyn.

*Pwyntiau allweddol ar werthuso effaith yn y dyfodol*

- Byddai'r gofynion ar gyfer gwerthuso effaith yn cynnwys y gallu i nodi pa blant sydd wedi derbyn y GADBC, sefydlu gwaelodlin a mesurau deilliannau dilys a dibynadwy a'r gallu i dracio symudiadau plant rhwng lleoliadau ac ysgolion.
- Nododd lleoliadau dri phrif ganlyniad yr oeddent yn ceisio'i gyflawni drwy ddefnyddio'r GADBC: gwella sgiliau iaith a lleferydd plant (86 y cant); gwella parodrwydd plant i ddysgu (77 y cant) a gwella parodrwydd ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen (76 y cant).
- Roedd rhan fwyaf y lleoliadau (94 y cant) yn mesur effeithiau eu dulliau gweithredu ar ganlyniadau plant mewn amryw o ffyrdd, gan gynnwys: monitro datblygiad yn erbyn disgwyliadau ar gyfer eu hoedran, asesu canlyniadau plant, defnyddio systemau tracio ac arsylwi eu hymatebion i'r gweithgareddau.
- Roedd y rhan fwyaf o'r lleoliadau (90 y cant) yn darparu gwybodaeth am eu defnydd o'r GADBC i awdurdodau y tu allan, fel yr ALI a/neu y CARh. Yn fwyaf cyffredin roeddent yn darparu gwybodaeth am y gwariant a nodwyd yn y CGYS/CDY.
- Datgelodd y cyfweliadau astudiaeth achos fod ymarferwyr yn cydnabod yr angen i fesur effaith y GADBC ond yn awyddus i sicrhau bod unrhyw werthusiad yn hylaw iddynt ac yn addas ar gyfer plant ifanc. Roeddent yn gweld y potensial i adeiladu ar systemau gwerthuso a ddatblygwyd ar gyfer Dechrau'n Deg a'r GAD.

**Gofynion ar gyfer gwerthusiad o effaith**

6.2 Er mwyn penderfynu a yw menter wedi cael yr effaith a fwriadwyd, byddai gwerthusiad yn gorfod sefydlu pa blant oedd wedi ei dderbyn, sut i fesur cynnydd a beth fyddai wedi digwydd pe na bai'r fenter wedi bod ar waith.

6.3 Mae'r dystiolaeth o'r arolwg a'r ymchwil ansoddol yn dangos bod ymatebwyr yn cydnabod y byddai manteision o ddatblygu dull o gynnal gwerthusiad o effaith y GADBC. Byddai hyn yn darparu tystiolaeth werthfawr ar gyfer atebolrwydd a gallai helpu i nodi pa blant sydd yn elwa fwyaf. Er mwyn gwneud hynny, byddai angen sicrhau bod y data a gasglwyd yn cyflawni gofynion gwerthusiad effaith cadarn. Mae'r arolwg a'r ymchwil ansoddol yn awgrymu y byddai angen mynd i'r afael â'r materion canlynol cyn y gellid ymgymryd â hyn:

- Byddai angen datblygu'r Fframwaith Datblygu ac Asesu'r Blynyddoedd Cynnar yn llawn a byddai angen cael gofyniad statudol ar randdeiliaid perthnasol neu lefel wirfoddol uchel iawn o gyfranogiad gan grŵp cynrychioliadol o leoliadau i gasglu digon o wybodaeth i sefydlu gwaelodlin ystyrlon.
- Byddai'n bwysig nodi pa leoliadau oedd yn derbyn y GADBC.
- Er mwyn mesur cynnydd plant, byddai angen i leoliadau (y rhai a gynhelir a nas cynhelir) gael capasiti i gynnal asesiadau gwaelodlin plant unigol i safon gyfatebol. Er mwyn gwneud hynny, byddai angen mynediad arnynt i gyfleoedd datblygiad proffesiynol perthnasol.
- Byddai angen nodi mesur o ganlyniad addas.
- Rhaid i'r systemau a ddefnyddir i dracio plant unigol rhwng lleoliadau (yr holl leoliadau a gynhelir a nas cynhelir sy'n darparu ar gyfer plant tair a phedair oed) a'r ysgolion cynradd fod yn gadarn.
- Rhaid i'r darparwyr sy'n derbyn data fod yn hyderus o ran dibynadwyedd yr asesiadau ac yn barod i'w defnyddio fel gwaelodlin ar gyfer eu gwaith eu hunain.

6.4 Byddai dull o'r fath yn adeiladu ar ansawdd y monitro presennol a'i wella a galluogi asesu amrywiaeth eang o nodweddion datblygiadol y plant.

6.5 Fodd bynnag, mae hefyd yn bwysig i ystyried cymesuredd unrhyw gasglu data o'r fath ac i bwyso a mesur ei fanteision posibl yn erbyn gosod baich ar staff blynyddoedd cynnar, ac o bosibl tynnu eu sylw oddi wrth y nod allweddol o ddarparu amgylchedd dysgu o ansawdd uchel ar gyfer plant ifanc.

**Ymarfer gwerthuso cyfredol mewn lleoliadau**

6.6 Gofynnodd yr arolwg i'r lleoliadau pa ganlyniadau y maent yn gobeithio'u cyflawni drwy ddefnyddio'r GADBC a sut yr oeddent yn mesur ei effaith. Gofynnodd hefyd am fonitro allanol o ran eu defnydd o'r GADBC.

6.7 Mae Tabl 7 yn dangos pa ganlyniadau yr oedd lleoliadau yn gobeithio'u cyflawni o'u defnydd o'r GADBC.

**Tabl 7: Pa ganlyniadau yr ydych yn gobeithio eu cyflawni drwy ddefnyddio'r GADBC?**

| **Canlyniadau** | **%** |
|---|---|
| Gwelliannau i sgiliau iaith a lleferydd y plant | 86 |
| Gwelliannau i barodrwydd plant i ddysgu | 77 |
| Parodrwydd ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen | 76 |
| Mwy o ymwneud gan deuluoedd yn nysgu eu plant | 54 |
| Gwelliannau i ymddygiad plant | 50 |
| Mwy o ymgysylltiad teuluol gyda'r lleoliad | 46 |
| Dim ymateb | 6 |

N = 376
Gellid rhoi mwy nag un ateb felly nid yw'r canrannau yn adio i 100.
Ffynhonnell: Arolwg NFER o Leoliadau Blynyddoedd Cynnar Cymru.

6.8 Nodwyd tri chanlyniad gan dros 75 y cant o leoliadau: gwelliannau i sgiliau iaith a lleferydd plant; gwelliannau i barodrwydd plant i ddysgu; a pharodrwydd ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen.

6.9 Dengys Tabl 8 y dulliau y nododd lleoliadau fel rhai yr oeddent yn eu defnyddio i fesur effeithiau eu dulliau gweithredu ar ganlyniadau i blant.

**Tabl 8: Sut ydych yn mesur effaith y dulliau yr ydych wedi'u gweithredu ar ganlyniadau plant?**

| **Dulliau** | **%** |
|---|---|
| Monitro datblygiad unigol y plant yn erbyn disgwyliadau ar gyfer eu grŵp oedran | 81 |
| Asesu canlyniadau plant | 79 |
| Defnyddio systemau tracio/llwybr archwilio i fesur effaith | 78 |
| Arsylwi ar ymatebion plant i weithgareddau | 76 |
| Dim ymateb | 6 |

N = 376
Gellid rhoi mwy nag un ateb felly nid yw'r canrannau yn adio i 100.
Ffynhonnell: Arolwg NFER o Leoliadau Blynyddoedd Cynnar Cymru.

6.10 Mae'r tabl yn dangos bod pob un o'r dulliau a restrwyd yn cael ei ddefnyddio gan dros 75 y cant o leoliadau: monitro yn erbyn disgwyliadau ar gyfer eu hoedran, asesu eu canlyniadau, defnyddio systemau tracio ac arsylwi ymatebion plant i weithgareddau.

6.11 Roedd un gwahaniaeth ystadegol arwyddocaol yn yr atebion i'r cwestiwn hwn. Dywedodd llai o leoliadau nas cynhelir (48 y cant) eu bod yn defnyddio systemau tracio/llwybrau archwilio i fesur effaith eu dulliau gweithredu ar ganlyniadau plant, o gymharu ag ysgolion meithrin a gynhelir (74 y cant) neu ysgolion (85 y cant).

6.12 Gofynnodd yr arolwg hefyd a oeddent yn darparu gwybodaeth am eu defnydd o'r GADBC i awdurdodau allanol, sef: yr ALl, CARh, Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar neu 'rywun arall'. Dangosir y mathau o wybodaeth a ddarparwyd yn Nhabl 9 isod.

**Tabl 9: Monitro allanol y GADBC**

| Diben | % |
|---|---|
| Nodi'r gwariant yn y CGY/CDY | 85 |
| Cynlluniau gwariant GADBC | 82 |
| Disgrifiad ysgrifenedig o'r defnydd o'r GADBC | 78 |
| Taenlen gwariant GADBC | 72 |
| Dim ymateb | 10 |

N = 376
Gellid rhoi mwy nag un ateb felly nid yw'r canrannau yn adio i 100. Atebodd cyfanswm o 337 ymatebwyr o leiaf un eitem yn y cwestiwn hwn.
Ffynhonnell: Arolwg NFER o Leoliadau Blynyddoedd Cynnar Cymru.

6.13 Mae'r tabl yn dangos bod y mwyafrif o leoliadau wedi nodi eu defnydd o'r GADBC a chynlluniau gwario yn y dyfodol, gan gynnwys gwybodaeth ariannol a disgrifiad o'r gweithgareddau y'i defnyddiwyd ar eu cyfer. Roedd gwybodaeth yn cael ei hadrodd gan fwyaf i'r ALl a/neu y CARh (gweler Atodiad 1).

6.14 Cafwyd rhai gwahaniaethau ystadegol arwyddocaol yn yr atebion i'r cwestiwn hwn mewn perthynas â'r math o leoliad. Rhestrir y rhain isod.

- Lleoliadau nas cynhelir oedd leiaf tebygol o adrodd eu bod yn darparu cynlluniau gwariant GADBC. Roedd ysgolion (91 y cant) ac ysgolion meithrin (87 y cant) yn fwy tebygol o fod wedi darparu'r cynlluniau hyn na lleoliadau nas cynhelir (71 y cant).
- Lleoliadau nas cynhelir oedd leiaf tebygol hefyd o adrodd eu bod yn darparu gwariant a nodwyd yn y CGY/CDY. Dywedodd bron pob ysgol (98 y cant) a'r rhan fwyaf o ysgolion meithrin (81 y cant) eu bod yn gwneud hyn, o gymharu â 64 y cant o'r lleoliadau nas cynhelir oedd yn gwneud hynny.

6.15 Efallai nad yw'r gwahaniaethau uchod yn syndod, gan yr oedd llawer o leoliadau nas cynhelir yn defnyddio adnoddau cyfun a ddelir gan yr ALl yn hytrach na derbyn cyllid uniongyrchol gan y GADBC.

6.16 Nododd y lleoliadau yr ymwelwyd â hwy fel rhan o'r ymchwil astudiaethau achos eu bod yn defnyddio dulliau tracio a monitro presennol i fesur effaith y gwaith a ariennir gan y GADBC. Roedd hyn yn rhywbeth a oedd yn cael ei annog gan y CARh a oedd yn awyddus y dylid defnyddio systemau presennol er mwyn osgoi llwyth gwaith ychwanegol.

6.17 Dywedodd lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir eu bod yn tracio cynnydd gan ddefnyddio eu systemau tracio neu fonitro presennol. Fodd bynnag, nid oeddent yn gallu defnyddio'r dulliau hynny i wahaniaethu rhwng y plant oedd yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r rhai nad oeddent yn gymwys gyda'r grŵp oedran hwn (tair i bedair oed) oherwydd nid oes unrhyw ddangosydd procsi cydnabyddedig ar gyfer amddifadedd plant cyn oedran ysgol gorfodol. Dywedodd rhai ysgolion eu bod yn defnyddio Proffiliau Cyfnod Sylfaen i sefydlu gwaelodlin a mesur cynnydd.

6.18 Roedd lleoliadau nas cynhelir yn ddieithriad yn defnyddio systemau monitro presennol, sef technegau arsylwi yn bennaf, i fonitro effaith y dulliau gweithredu newydd a gyflwynwyd drwy'r gwaith a ariannwyd gan y GADBC, a dywedodd rhai eu bod hefyd yn defnyddio Proffiliau Cyfnod Sylfaen i fonitro cynnydd plant unigol.

Fodd bynnag, ni ddywedodd yr un o'r lleoliadau nas cynhelir eu bod yn mesur effaith penodol y gwaith a ariannwyd gan y GADBC (o bosibl oherwydd eu bod yn cael hyfforddiant staff a ddarparwyd gan ALlau, yn hytrach na derbyn cyllid uniongyrchol). Roedd cynrychiolwyr CARh yn credu bod angen datblygu capasiti ar gyfer gwerthuso o fewn lleoliadau nas cynhelir. Byddai hyn yn cefnogi'r lleoliadau hynny i gryfhau'r ffordd y maent yn casglu ac yn cofnodi tystiolaeth am gynnydd y plant. Roeddent yn teimlo y dylai hyfforddiant ar werthuso fod yn rhan o strategaeth ehangach i ddatblygu sgiliau staff yn y sector nas cynhelir.

**Barn ymarferwyr ar sut y gallai effaith gweithgarwch a ariannwyd gan y GADBC gael ei monitro a'i mesur yn y dyfodol**

6.19 Roedd lleoliadau yn cydnabod yr angen i allu mesur effaith y GADBC ond roeddent yn mynnu y dylai unrhyw fonitro fod yn hylaw a dylai gymryd i ystyriaeth gwaith monitro arall. Pwysleisiwyd hefyd yr angen am gymorth iddynt fonitro a gwerthuso eu strategaethau, gan adleisio casgliadau'r gwerthusiad o'r Cyfnod Sylfaen (Taylor et al, 2015).

6.20 Nodwyd yr angen i gymryd i ystyriaeth oedran y plant yr oedd y GADBC yn cael ei dalu ar eu cyfer a bod angen i unrhyw fesur o'r effaith fod yn briodol i'r grŵp oedran hwn. Cafwyd neges gref y dylai mesur yr effaith gymryd ystyriaeth o'r dangosyddion datblygiadol, sgiliau cymdeithasol a phersonol a pharodrwydd rhieni i ymgysylltu â'r lleoliad.

6.21 Cyfeiriodd lleiafrif (dau leoliad) at y potensial i adeiladu ar y proffilio a gynhaliwyd gan ymwelwyr iechyd ar gyfer y rhaglen Dechrau'n Deg, drwy ganolbwyntio ar ddangosyddion fel:

- taldra a phwysau
- lleferydd ac iaith
- defnyddio poteli neu dymis
- ymddygiad
- gweithgarwch corfforol a hyder wrth chwarae yn yr awyr agored.

6.22 Ar yr un pryd, roeddent yn mynnu bod angen cymryd i ystyriaeth ffactorau megis diffyg dangosydd swyddogol ar gyfer amddifadedd ar gyfer plant o dan oedran ysgol gorfodol (gweler uchod) a'r ffaith bod lleoliadau nas cynhelir yn benodol (a hefyd rhai meithrinfeydd a gynhelir) yn denu plant o ardal ddaearyddol eang, a oedd yn ei wneud yn anodd dod i farn yn seiliedig ar ddata cymdogaeth.

# 7. Trafodaeth a chasgliad

## Trafodaeth

7.1 Nod yr astudiaeth hon oedd gwerthuso sut y dehonglir a gweithredir y GADBC gan ymarferwyr ar draws gwahanol leoliadau, p'un a yw'n cael ei weithredu yn ôl y bwriad ac i nodi unrhyw arfer gorau sy'n dod i'r amlwg. Cafodd ei chynnal ar gam cymharol gynnar, yn ystod yr ail flwyddyn yr oedd y GADBC ar gael i sefydliadau blynyddoedd cynnar.

7.2 Dengys ein canfyddiadau fod y lleoliadau oedd yn derbyn y GADBC yn ymwybodol iawn mai prif ddiben y GADBC yw cefnogi plant o gartrefi incwm isel i gyflawni eu potensial, er y credai rhai hefyd fod iddo nodau ychwanegol, gan gynnwys cefnogi plant sydd ar ei hôl hi. Er ei fod yn ddealladwy i ymarferwyr ddymuno canolbwyntio adnoddau ychwanegol ar y plant sydd ar ei hôl hi, camddealltwriaeth yw hyn o ddiben y GADBC. O ganlyniad, mae'n bosibl y gallai ymarferwyr dargedu adnoddau at blant nad ydynt o gefndiroedd difreintiedig a/neu fethu â chefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig y mae eu datblygiad yn ôl y disgwyl neu'n well na'r disgwyliadau ar gyfer eu hoedran.

7.3 Canfu dadansoddiad arolwg hefyd bod llai o ymatebwyr o'r lleoliadau cyfrwng Cymraeg wedi nodi'n gywir y diben a fwriadwyd ac roedd mwy ohonynt yn meddwl mai un o ddibenion y GADBC oedd darparu cyllid ychwanegol ar gyfer eu lleoliadau.

7.4 Canfu'r gwerthusiad bod lleoliadau i raddau helaeth yn dilyn argymhellion a nodir yn y dogfennau arweiniad 'Beth sydd wir yn gweithio ar gyfer blynyddoedd cynnar'. Roedd lleoliadau wedi dewis canolbwyntio'n bennaf ar ddefnyddio'r GADBC i gefnogi datblygiad iaith cynnar a datblygiad proffesiynol. Hefyd roedd mwyafrif y lleoliadau yn defnyddio'r GADBC i ddarparu cymorth i rieni ac i gryfhau eu gwaith gydag asiantaethau eraill. Roedd yr astudiaethau achos yn darparu enghreifftiau o arfer da mewn perthynas â'r agweddau hyn, ynghyd â chymorth ar gyfer datblygiad cymdeithasol ac emosiynol y plant. Nodwyd hefyd bod angen canolbwyntio ar ymddygiad, datblygiad corfforol (gan gynnwys sgiliau echddygol manwl) a gofal personol y plant.

7.5 Dywedodd y rhan fwyaf o'r lleoliadau a ymatebodd i'r arolwg eu bod wedi defnyddio'r GADBC i weithio ar systemau, er enghraifft, i asesu anghenion plant neu dracio eu cynnydd.

7.6 Canfu'r astudiaeth bod lleoliadau yn bennaf yn defnyddio arweiniad Llywodraeth Cymru, staff blynyddoedd cynnar ALlau a lleoliadau eraill i'w helpu i benderfynu sut i weithredu'r GADBC. Nododd y lleoliadau astudiaeth hefyd eu bod wedi cyfeirio at gyhoeddiadau Estyn.

7.7 Roedd nifer cymharol fach o wahaniaethau ystadegol arwyddocaol rhwng gwahanol fathau o leoliadau yn eu hymatebion i'r arolwg. Fodd bynnag, awgrymodd y canfyddiadau fod lleoliadau nas cynhelir a oedd yn cael cymorth gan staff ALlau yn cael hyn yn arbennig o ddefnyddiol. Gallai hyn fod oherwydd eu bod yn llai cyfarwydd â derbyn cymorth gan staff awdurdodau lleol.

7.8 Mae'r arwyddion cynnar o gryfderau allweddol y GADBC yn awgrymu mai cryfder sylfaenol yw ei fod wedi helpu i godi proffil effaith amddifadedd ar ddysgu a datblygiad plant. Mae wedi annog lleoliadau i ddatblygu eu hymarfer wrth nodi plant o gefndiroedd difreintiedig a gwneud diagnosis o'u hanghenion. Mae lleoliadau wedi rhoi strategaethau ar waith i gefnogi'r plant hyn i wireddu eu potensial. Mewn cyd-destun polisi ehangach, mae'r GADBC yn darparu pont bwysig rhwng mentrau i gefnogi plant a theuluoedd o'u genedigaeth, a'r cymorth a ddarperir gan ysgolion drwy'r GAD.

7.9 Mae'r prif gyfyngiadau a grybwyllwyd gan ymatebwyr yn ymwneud â lefel y cyllid, ei ddosbarthiad i leoliadau nas cynhelir a'r dulliau ar gyfer adnabod plant cymwys. Roedd ymarferwyr blynyddoedd cynnar yn dadlau bod swm y GADBC (£300 y plentyn cymwys) yn rhy fach i wneud gwahaniaeth, yn enwedig mewn lleoliadau gyda ychydig yn unig o blant cymwys. Yn sicr bydd y cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru am y bwriad i ddyblu gwerth y GADBC yn y dyfodol a sicrwydd y bydd y GADBC ar gael ar gyfer gweddill tymor y Cynulliad hwn, yn cael ei groesawu gan leoliadau, y dywedodd rhai ohonynt hefyd fod ansicrwydd ynglŷn â'r dyfodol yn ei gwneud yn anodd iddynt gynllunio yn y tymor hwy.

7.10 Mae'r ail fater yn ymwneud â dosbarthiad y GADBC i leoliadau nas cynhelir. Nododd cynrychiolwyr o CARh leoliadau nas cynhelir fel rhai oedd yn benodol angen cymorth, ond dim ond swm bach o GADBC y byddai lleoliadau bach gydag ychydig yn unig o blant cymwys yn ei dderbyn. Roedd hyn yn darparu sail resymegol ar gyfer ALlau i ariannu hyfforddiant y gwnaethant ei gynnig i leoliadau nas cynhelir, yn hytrach na dosbarthu'r GADBC i'r lleoliadau. Er bod rhai o'r ymarferwyr a gafodd gyfweliad yn cytuno â'r egwyddor o 'gyfuno' y GADBC i wneud

y defnydd mwyaf effeithiol o'r arian, nododd yr arolwg fod eraill yn ddig nad oeddent wedi derbyn y GADBC neu'n teimlo nad oeddent wedi cael cyfle i ddylanwadu ar ei ddefnydd. Nododd y gwerthusiad hefyd achosion lle nad oedd rhai lleoliadau wedi'u gwahodd i gymryd rhan mewn hyfforddiant neu eu bod o'r farn nad oedd yr hyfforddiant yn briodol. Efallai bod yr arfer hwn wedi cyfrannu at y ffaith bod rhai ALlau wedi methu â nodi pa leoliadau nas cynhelir oedd wedi derbyn gwasanaethau a ariennir gan y GADBC, sy'n peri heriau o ran atebolrwydd, gan gynnwys gallu'r gwerthusiad hwn i ymchwilio'n ddigonol i'r defnydd o'r GADBC mewn lleoliadau nas cynhelir.

7.11 Un o'r anawsterau ychwanegol sy'n wynebu ymarferwyr yw'r ffordd orau o nodi plant o gefndiroedd difreintiedig, yn absenoldeb unrhyw fesur megis eFSM. Er gwaethaf y dull ar gyfer dyrannu'r GADBC mae ymarferwyr yn cael eu gadael i wneud penderfyniadau am y ffordd orau o nodi plant cymwys. Roedd rhai o'r lleoliadau astudiaethau achos wedi canfod rhai ffyrdd creadigol o nodi plant cymwys: mae hwn yn faes lle mae potensial i Lywodraeth Cymru, CARh a/neu ALlau helpu i rannu arferion gorau.

7.12 Dywedodd llawer o leoliadau eu bod ar hyn o bryd yn gwerthuso effaith y gwaith a ariennir gan y GADBC, gan ddefnyddio llawer o'r technegau sydd ar waith i fonitro cynnydd y plant a thrwy adrodd ar eu defnydd o'r GADBC. Fodd bynnag, nodwyd ganddynt ei bod yn gynhenid heriol i ynysu effaith gweithgaredd penodol ar ganlyniadau plant a bod llawer o'r ymyriadau wedi'u llunio i fod o fudd i blant yn anuniongyrchol (yn achos gwaith gyda theuluoedd) ac yn y tymor hwy (pan fydd y plant wedi gadael y lleoliad).

7.13 Roedd staff mewn lleoliadau wedi datblygu eu mesurau eu hunain o ran datblygiad a chynnydd plant, gan gynnwys defnyddio'r rhai a ddefnyddir yn Dechrau'n Deg ac ysgolion i werthuso'r GAD. Pwysleisiodd y rhai a gafodd gyfweliad fod angen i unrhyw fesur posibl yn y dyfodol ystyried amrywiaeth o ddangosyddion datblygiadol ond dylai hefyd fod yn ymarferol i staff ei weithredu.

7.14 Roedd rhan fwyaf y lleoliadau astudiaethau achos wedi defnyddio’r GADBC i ymestyn y gwaith yr oedd ganddynt eisoes yn ei le, er bod rhai wedi ariannu meysydd gwaith newydd. Roedd eu defnydd o'r GADBC yn adlewyrchu eu maint/capasiti a'u hanes unigol. Er enghraifft, roedd rhai yn croesawu'r cyfle i hyfforddi staff neu i ddarparu cymorth grŵp bach, tra roedd eraill eisoes wedi rhoi

hyn ar waith. Unwaith eto, roedd gwerth cymharol fach y GADBC ac ansicrwydd ynghylch incwm yn y dyfodol yn golygu bod lleoliadau yn amharod i fuddsoddi mwy mewn ffrydiau newydd o weithgarwch.

**Casgliad**

7.15 Mae'r gwerthusiad o'r broses hon yn dangos bod y GADBC i raddau helaeth yn cael ei ddehongli a'i weithredu fel y bwriadwyd. Mae wedi nodi rhai enghreifftiau o arfer gorau sy'n dod i'r amlwg, yn enwedig o ran cymorth rhianta a gwaith grŵp bach gyda'r plant. Y prif flaenoriaethau ar gyfer y dyfodol dylai fod i sicrhau mwy o eglurder eto ynghylch diben y GADBC a sicrhau mwy o gynaliadwyedd. Hefyd mae'n ymddangos bod angen canolbwyntio mwy ar ddatblygu capasiti o fewn y system yn enwedig mewn perthynas â lleoliadau yn y sector nas cynhelir.

**Argymhellion**

7.16 Mae'r gwerthusiad wedi nodi'r argymhellion canlynol ar gyfer Llywodraeth Cymru, CARh ac ALlau.

1. Parhau i ddarparu'r GADBC i alluogi lleoliadau blynyddoedd cynnar i gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig a'u teuluoedd. Os oes modd, dylai Llywodraeth Cymru gadarnhau swm y cyllid a fydd ar gael yn y dyfodol (er enghraifft, dros gyfnod o dair blynedd) i alluogi lleoliadau i gynllunio eu defnydd o'r GADBC yn y tymor hwy.
2. Canolbwyntio'n fwy penodol ar anghenion cymorth lleoliadau nas cynhelir. Dylai Llywodraeth Cymru egluro dosbarthiad y cyllid GADBC i leoliadau nas cynhelir a chyfathrebu'n effeithiol gyda lleoliadau am y sail resymegol a'r trefniadau ar gyfer cyfuno'r GADBC mewn achosion lle nad yw'n cael ei ddosbarthu i leoliadau. Lle mae ALlau yn penderfynu cyfuno'r GADBC er mwyn gwneud defnydd mwy effeithlon o'r cyllid, dylid ymgynghori â lleoliadau nas cynhelir ynghylch yr holl benderfyniadau ar sut y dylid ei ddefnyddio. Er mwyn gwneud hyn, byddai angen i ALlau gasglu data ar ba leoliadau nas cynhelir sydd wedi elwa o'r GADBC.
3. Adolygu'r rhaglenni gwahanol sydd wedi'u hanelu at gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig ar oedrannau gwahanol, gan gynnwys Dechrau'n Deg, y GADBC a'r GAD, er mwyn nodi pwyntiau dysgu cyffredin a meysydd o ddilyniant/diffyg dilyniant, gan gynnwys a yw rhai plant o gefndiroedd difreintiedig yn 'syrthio drwy'r rhwyd' (er enghraifft, oherwydd nad ydynt yn

mynychu lleoliadau blynyddoedd cynnar neu nad ydynt yn cael eu nodi'n effeithiol fel rhai sy'n gymwys ar gyfer cymorth).

4. Parhau i egluro'r sail resymegol dros ddarparu cyllid ychwanegol i gefnogi plant o gefndiroedd difreintiedig. Mynd i'r afael ag unrhyw ddryswch mewn lleoliadau am y ffocws ar blant o gefndiroedd difreintiedig, yn hytrach nag ar blant sydd ar ei hôl hi neu blant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.
5. Sicrhau bod anghenion datblygiad proffesiynol ymarferwyr mewn lleoliadau a gynhelir a nas cynhelir yn cael eu diwallu drwy gyfleoedd parhaus i wella arfer a chael yr wybodaeth ddiweddaraf am arfer sy'n esblygu.
6. Darparu arweiniad ar gyfer staff mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ar ddulliau priodol o nodi plant sy'n gymwys ar gyfer y GADBC, ac ar ba fesurau a dangosyddion y gall lleoliadau eu defnyddio i ddiagnosio anghenion cymorth, mesur dilyniant a gwerthuso effeithiolrwydd eu darpariaeth.
7. Yng ngoleuni'r dystiolaeth a gasglwyd fel rhan o'r gwerthusiad hwn, dylai Llywodraeth Cymru a CARh weithio gyda lleoliadau i archwilio a phrofi'r dulliau y maent wedi canfod eu bod yn effeithiol o ran adnabod plant cymwys. Dylent wedyn ledaenu arfer da profedig yn y maes gwaith hwn.
8. Nodi lleoliadau sy'n dangos arfer gorau fel y gellir ei rannu yn ehangach.
9. Cefnogi lleoliadau a gynhelir a rhai nas cynhelir i feithrin cysylltiadau agosach i sicrhau mwy o rannu gwybodaeth ac arfer.
10. Gweithio'n agosach gyda Dechrau'n Deg er mwyn cynyddu cyfathrebu a chryfhau prosesau pontio.
11. Dylai Llywodraeth Cymru a CARh fonitro effaith y penderfyniad i gynyddu'r cyllid cwantwm i £600 y plentyn cymwys, yn enwedig mewn lleoliadau sy'n gwasanaethu nifer bach o blant o gefndiroedd difreintiedig.
12. Dylai Llywodraeth Cymru ystyried dichonoldeb a phriodoldeb comisiynu gwerthusiad o effaith, o ystyried y gofyniad i nodi a thracio cynnydd y plant sydd wedi cael y GADBC, tra hefyd yn lleihau'r baich ar leoliadau ac ysgolion.

## 8. Cyfeiriadau

Dysgu Cymru (2015), Manteisio i'r eithaf ar Grant Amddifadedd y Blynyddoedd Cynnar [12 Mai 2017].

Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil i Addysg (n.d.) Cod Ymarfer Ymchwil NFER (PDF) [12 Mai 2017].

Pye, J., Mollidor, C. a Taylor, C. (2015). Evaluation of the Pupil Deprivation Grant: 2nd Interim Report (PDF). Caerdydd: Llywodraeth Cymru [11 Mai 2017].

Siraj, I. a Kingston, D. (2014). An Independent Stocktake of the Foundation Phase in Wales (PDF). Caerdydd: Llywodraeth Cymru [11 Mai 2017].

Taylor, C., Rhys, M., Waldron, S., Davis, R., Powers, S., Maynard, T., Moore, L., Blackaby, D. a Plewis, I. (2015). Evaluating the Foundation Phase: Final Report (PDF). Caerdydd: Llywodraeth Cymru
[4 Mawrth 2016].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2001). Y wlad sy'n dysgu: Gweledigaeth ar waith. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [11 Mai 2017].

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2011). Strategaeth tlodi plant Cymru (PDF). (Dogfen wybodaeth Rhif: 095/2011). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [11 Mai 2017].

(2015) Llywodraeth Cynulliad Cymru Strategaeth tlodi plant Cymru (PDF). Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru [12 Mai, 2017].

Llywodraeth Cymru (2012). Cynllun Gweithredu Trechu Tlodi 2012-2016 (PDF). Caerdydd: Llywodraeth Cymru [ar-lein] ar gael ar: [11 Mai 2017].

Llywodraeth Cymru (2013). Adeiladu Dyfodol Mwy Disglair: Cynllun Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDF). Caerdydd: Llywodraeth Cymru.

(2015) Llywodraeth Cymru Grant Amddifadedd Bynyddoedd Cynnar. Arweiniad ar gyfer consortia rhanbarthol, awdurdodau lleol, ysgolion, meithrinfeydd, cylchoedd chwarae a gwarchodwyr plant. Caerdydd: Llywodraeth Cymru [11 Mai 2017].

Llywodraeth (Llywodraeth Cymru 2015A) Cymru Beth sydd wir yn gweithio? Canllawiau ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar [12 Mai 2017].

Llywodraeth Cymru 2014. Beth sydd wir yn gweithio? Canllawiau ar gyfer defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion Blynyddoedd Cynnar (PDF) [12 Mai 2017].

Llywodraeth Cymru (2016). Cyfnod Sylfaen [12 Mai 2017].

Llywodraeth Cymru (2017). Dechrau'n Deg [12 Mai 2017].

## Atodiad 1: Arolwg o leoliadau blynyddoedd cynnar

# Gwerthusiad o'r Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar

# Arolwg Lleoliadau Blynyddoedd Cynnar (2017)

Mae'r ymchwil hwn yn ystyried sut y mae Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar Llywodraeth Cymru (GADBC) yn cael ei ddefnyddio yng Nghymru. Cynhelir yr ymchwil gan NFER ar ran Llywodraeth Cymru.

Dylai'r arolwg gymryd tua **10 munud** i'w lenwi. Y bwriad yw bod aelod o dîm rheoli eich lleoliad (megis pennaeth y blynyddoedd cynnar, pennaeth y lleoliad, neu bennaeth yr ysgol) yn ei lenwi. Bydd eich atebion yn hollol gyfrinachol ac ni fyddwn yn enwi unrhyw unigolion na lleoliadau penodol yn ein hadroddiadau.

Cedwir eich atebion yn gyfrinachol gan NFER. Ni fyddwn yn rhannu eich data gyda neb nac yn enwi unigolion na lleoliadau yn ein hadroddiadau.

Os oes gennych unrhyw gwestiwn am yr arolwg hwn, neu os hoffech fwy o wybodaeth am y gwaith gwerthuso, mae croeso i chi gysylltu â XXX yn NFER ar XXX, neu drwy anfon e-bost at XXX.

Diolch am eich cymorth gyda'r ymchwil pwysig hwn.

**Defnyddiwch y botymau ar waelod pob tudalen i symud ymlaen. Os gwelwch yn dda, <u>peidiwch</u> â defnyddio botymau ymlaen ac yn ôl eich porwr.**

**Dalier sylw, os caiff yr holiadur ei adael yn llonydd am dros 20 munud, byddwch yn cael eich cau allan**. Os felly, dylech ddefnyddio eich dolen bersonol a anfonwyd atoch yn yr e-bost er mwyn mynd yn ôl at yr holiadur. Os byddwch yn gadael yr holiadur cyn y diwedd, yna byddwn yn dal i ddadansoddi'r atebion a roddwyd gennych.

*Noder, newidiwyd trefn y cwestiynau ar hap yn y fersiwn ar-lein er mwyn lleihau'r tebygolrwydd fod gogwydd yn yr atebion.*

.

**1.** **Dewiswch pa iaith hoffech chi ei defnyddio yn yr arolwg**

Saesneg

Cymraeg

**2.** **Ydy eich ysgol/lleoliad yn derbyn Grant Amddifadedd Disgyblion y Blynyddoedd Cynnar?**

| | % |
|---|---|
| Ydyw | 72 |
| Nac ydyw | 28 |

N=521

## Gwybodaeth am eich lleoliad blynyddoedd cynnar

**3.** Pa un o'r canlynol yw'r disgrifiad mwyaf priodol am eich lleoliad? (Dewiswch un yn unig)

| | % |
|---|---|
| Ysgol a gynhelir gan yr awdurdod lleol (cynradd, babanod neu 3-16/18, gan gynnwys unrhyw ysgolion canol a ystyrir yn ysgolion cynradd) | 75 |
| Ysgol Feithrin a gynhelir gan yr awdurdod lleol | 9 |
| Lleoliad blynyddoedd cynnar nad yw'n cael ei gynnal | 16 |
| dim ymateb | 1 |

N=376

**4.** Sut fyddech chi'n disgrifio eich dalgylch?
(Dewiswch un yn unig)

| | % |
|---|---|
| Gwledig | 24 |
| Maestrefol/cymysg trefol a gwledig | 36 |
| Trefol | 39 |
| dim ymateb | 1 |

N=376

**5.** Beth yw cefndir ieithyddol eich lleoliad?
(gweler y diffyniadau o dan bob disgrifiad;  dewiswch un yn unig)

| | % |
|---|---|
| Lleoliad cyfrwng Cymraeg | 23 |
| Lleoliad cyfrwng Cymraeg a chyfrwng Saesneg | 5 |
| Lleoliad cyfrwng Saesneg gyda pheth nodweddion dwyieithog | 50 |
| Lleoliad cyfrwng Saesneg | 22 |
| dim ymateb | |

N=376

**6.** Beth yw Côd Post eich lleoliad?

## Amcanion y grant

**7.** Sut fyddech chi'n diffinio amcanion y GADBC?
(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | % |
|---|---|
| Darparu cyllid ychwanegol ar gyfer y lleoliad blynyddoedd cynnar | 10 |
| Cefnogi plant sydd ddim yn gwneud cynnydd | 13 |
| Cefnogi plant o gartrefi incwm isel i gyflawni eu potensial llawn | 94 |
| Cefnogi plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | 12 |
| dim ymateb | 0 |

N=376

## Sut y caiff y grant ei ddefnyddio

### Cefnogi plant i ddysgu

**8.** Meddyliwch sut yr ydych wedi defnyddio'r cyllid a ddaw drwy'r GADBC ers mis Medi 2015 i gefnogi plant i ddysgu. I ba raddau yr ydych wedi ei ddefnyddio ar gyfer y dibenion canlynol?

(Dewiswch un ateb ym mhob rhes)

| | **Llawer %** | **Peth %** | **Ychydig %** | **Ddim o gwbl %** | **dim ymateb %** |
|---|---|---|---|---|---|
| Datblygiad iaith gynnar: gwaith i ddatblygu'r sgiliau iaith y bydd plant eu hangen fel eu bod yn barod i ddysgu pan fyddant yn cychwyn yn yr ysgol | 61 | 28 | 5 | 5 | 1 |
| Rhoi cefnogaeth i rieni wrth fagu eu plant | 18 | 29 | 27 | 24 | 1 |
| Trefniadau trosglwyddo: cefnogi plant wrth iddynt symud i'r Cyfnod Sylfaen | 18 | 33 | 23 | 26 | 1 |
| Gwaith ar systemau, er enghraifft i asesu anghenion plant neu greu systemau tracio | 16 | 36 | 26 | 21 | 1 |
| Hyfforddi a datblygu staff i weithio gyda disgyblion o gefndir difreintiedig | 25 | 40 | 22 | 11 | 1 |

N=376

## Gwariant arall

**9.** Meddyliwch am unrhyw ffyrdd eraill yr ydych wedi defnyddio'r cyllid a ddaw drwy'r GADBC ers mis Medi 2015. I ba raddau yr ydych wedi ei ddefnyddio ar gyfer y dibenion canlynol?

(dewiswch un ateb ym mhob rhes)

| | Llawer % | Peth % | Ychydig % | Ddim o gwbl % | Dim ymateb % |
|---|---|---|---|---|---|
| Prynu adnoddau dysgu a rhaglenni newydd | 19 | 36 | 22 | 20 | 2 |
| Talu am oriau staff ychwanegol | 37 | 26 | 13 | 22 | 2 |
| Cynyddu oriau agor eich lleoliad | 2 | 5 | 5 | 86 | 2 |
| Talu am adnoddau TG | 7 | 21 | 18 | 52 | 2 |
| Cryfhau cysylltiadau eich lleoliad gydag asiantaethau eraill i gefnogi datblygiad y plentyn cyfan, eu teuluoedd a'r rhai sy'n gofalu drostynt | 13 | 28 | 29 | 28 | 2 |
| Gwella ansawdd amgylchedd eich lleoliad | 11 | 26 | 19 | 43 | 2 |
| Arall | 3 | 14 | 13 | 68 | 2 |

N=376

**10.** Nodwch unrhyw ffyrdd pwysig eraill y mae eich lleoliad yn defnyddio cyllid y GADBC.

**11.** Ydych chi wedi defnyddio cyllid GADBC i gwrdd ag anghenion grwpiau penodol o blant?

(Dewiswch un yn unig)

| | % |
|---|---|
| Ydym | 76 |
| Nac ydym, nid ydym yn targedu cyllid i gwrdd ag anghenion unrhyw grwpiau penodol | 21 |
| dim ymateb | 3 |
| N=376 | |

**12.** Os ydych yn targedu grwpiau penodol, nodwch pa rai (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | % |
|---|---|
| Plant o gefndiroedd incwm isel | 90 |
| Plant sydd mewn gofal | 23 |
| Plant y mae eu dysgu yn is na'r hyn sy'n ddisgwyliedig am eu hoedran | 57 |
| Plant lle mae Cymraeg neu Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt | 12 |
| Plant ag Anghenion Dysgu Ychwanegol | 36 |
| Grwpiau eraill o blant (nodwch pa rai) | 12 |
| Dim ymateb | 0 |
| N=286 | |

**13.** Ydych chi wedi rhoi gwybod i rieni/gwarcheidwaid fod eich lleoliad yn derbyn y GADBC?
(Dewiswch un yn unig)

| | % |
|---|---|
| Ydyn, pob un ohonynt | 54 |
| Ydyn, rhai ohonynt | 15 |
| Nac ydym | 26 |
| Dim ymateb | 5 |

N=376

**14.** Beth fyddech chi'n dweud yw prif fanteision y GADBC?
(dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | % |
|---|---|
| Hyblygrwydd am sut y gellid ei ddefnyddio | 52 |
| Galluogi staff i gael eu hyfforddi i weithio gyda phlant o gefndir difreintiedig | 47 |
| Dechrau'r gwaith gyda phlant o gefndir difreintiedig flwyddyn yng nghynt | 57 |
| Eich galluogi i weithio (gwneud mwy o waith) gyda theuluoedd | 36 |
| Eich galluogi i weithio gydag ysgolion/lleoliadau eraill wrth ddefnyddio'r GADBC | 13 |
| Arall (nodwch) | 8 |
| Dim ymateb | 5 |

N=376

**15.** Beth fyddech yn dweud yw prif anfanteision y GADBC (*Cwestiwn agored*)?

## Caffael cefnogaeth a chyngor

**16.** Rydym wedi nodi rhai o'r ffyrdd y gallech gael cefnogaeth a chyngor ar sut y gall ysgolion/lleoliadau ddefnyddio'r GADBC.

A wnewch chi nodi pa mor ddefnyddiol y bu pob un ohonynt i chi? Defnyddiwch raddfa lle mae 5 yn ddefnyddiol iawn, 3 yn weddol ddefnyddiol, ac 1 heb fod yn ddefnyddiol o gwbl. Os na ddefnyddioch opsiwn, dewiswch 'Nid ydym wedi defnyddio'r gefnogaeth/cyngor hwn'.

(Dewiswch un ateb ym mhob rhes)

| | Heb fod yn ddefnyddiol o gwbl 1 % | 2 % | 3 % | 4 % | Defnyddiol iawn 5 % | Nid ydym wedi defnyddio'r gefnogaeth/cyngor hwn [0] % | Dim ymateb % |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfarwyddiadau Llywodraeth Cymru ar sut i ddefnyddio'r GADBC | 2 | 4 | 27 | 25 | 26 | 9 | 6 |
| Deunyddiau Blynyddoedd Cynnar yr EEF/Sutton Trust | 5 | 9 | 18 | 18 | 16 | 28 | 6 |
| Staff blynyddoedd cynnar yr awdurdod lleol | 8 | 11 | 22 | 14 | 19 | 19 | 6 |
| Staff arall yr awdurdod lleol | 10 | 11 | 20 | 14 | 13 | 26 | 6 |
| Y consortia rhanbarthol | 8 | 12 | 24 | 16 | 5 | 30 | 6 |
| Ymgynghorydd arbennig | 16 | 7 | 9 | 8 | 5 | 49 | 6 |
| Arolygaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru | 19 | 6 | 9 | 6 | 4 | 51 | 6 |
| Cymorth oddi wrth ysgolion/lleoliadau eraill | 6 | 9 | 20 | 21 | 16 | 21 | 6 |
| Siart llif Grant Amddifadedd Disgyblion Llywodraeth Cymru | 5 | 7 | 26 | 19 | 11 | 25 | 6 |
| Cyngor/cefnogaeth arall | 13 | 6 | 13 | 7 | 4 | 50 | 6 |

N=376

## Sut y mae'r grant yn cael ei fonitro?

**17.** Hoffem wybod pwy sy'n casglu gwybodaeth oddi wrthych am y modd yr ydych yn defnyddio'r GADBC a pha wybodaeth y maent yn ei gasglu. Nodwch pwy, os o gwbl, sy'n casglu'r wybodaeth a nodir isod.

| | **Awdurdod Lleol %** | **Consortiwm Rhanbarthol %** | **Partneriaeth Blynyddoedd Cynnar %** | **Rhywun arall %** | **Nid yw'n cael ei gasglu %** | **Dim ymateb %** |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cynlluniau gwario'r GADBC | 57 | 45 | 5 | 3 | 11 | 6 |
| Gwariant a nodir o fewn y CGA/CDY | 57 | 53 | 5 | 2 | 8 | 6 |
| Disgrifiad ysgrifenedig o sut y defnyddir y Grant | 51 | 43 | 6 | 4 | 15 | 6 |
| Taenlen o'r gwariant o'r GADBC | 57 | 28 | 5 | 4 | 22 | 6 |

N=376

## Effaith y grant

**18.** Beth ydych chi'n gobeithio y byddwch yn ei gyflawni gyda chyllid y GADBC? (Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | % |
|---|---|
| Gwella sgiliau llefaredd ac iaith plant | 86 |
| Gwella ymddygiad plant | 50 |
| Gwella parodrwydd plant i ddysgu | 77 |
| Teuluoedd yn ymwneud mwy â'r lleoliad | 46 |
| Teuluoedd yn ymwneud mwy â'r modd y mae eu plant yn dysgu | 54 |
| Parodrwydd plant ar gyfer dysgu yn y Cyfnod Sylfaen | 76 |
| Dim ymateb | 6 |

N=376

## Mesur effaith y grant

**19.** Sut ydych chi'n mesur effaith yr hyn yr ydych wedi'i wneud â'r cyllid ar ddeilliannau plant?

(Dewiswch bob un sy'n berthnasol)

| | % |
|---|---|
| Defnyddio systemau tracio/trywydd archwiliad i fesur effaith | 78 |
| Arsylwi sut y mae plant yn ymateb i wahanol weithgareddau | 76 |
| Monitro datblygiad plant unigol yn erbyn disgwyliadau ar gyfer eu grŵp oedran | 81 |
| Asesu deilliannau plant | 79 |
| dim ymateb | 6 |

N=376

## Atodiad 2: Yr ymweliadau astudiaethau achos

Cynhaliwyd yr ymweliadau astudiaethau achos mewn 20 o leoliadau blynyddoedd cynnar yn ystod Ionawr – Mawrth 2017. Roedd y sampl yn cynnwys wyth ysgol gynradd, chwe ysgol feithrin a gynhelir, a chwe lleoliad nas cynhelir. Ym mhob achos gwnaethom gyfweld â phennaeth y lleoliad ac aelodau eraill o staff â rolau arweinyddiaeth o ran y GADBC.

Cynhaliodd yr ymchwilwyr gyfweliadau lled-strwythuredig gyda chyfranogwyr, gan ddefnyddio offerynnau ymchwil generig wedi'u teilwra i gyd-destunau penodol lleoliadau er mwyn sicrhau y gallai unigolion wneud sylwadau'n briodol ar eu profiad o'r GADBC. Roedd pob ymweliad ar y cyfan yn para hanner diwrnod.

Cynhaliwyd y gwaith ymchwil yn unol â Chod Ymarfer NFER (2012). Yn benodol, defnyddiodd y tîm y gweithdrefnau canlynol:

- Roedd y cyfranogwyr yn yr ymchwil yn gwbl ymwybodol o ddiben yr ymchwil a rhoddwyd gwybod iddynt sut y byddai eu data yn cael eu defnyddio a'u storio.
- Gofynnodd y tîm ymchwil i'r holl gyfranogwyr am eu caniatâd gweithredol i gymryd rhan.
- Gofynnwyd i'r rhai a gafodd gyfweliad am eu caniatâd i recordio'r cyfweliadau.
- Mae'r tîm ymchwil wedi cynhyrchu canfyddiadau a dyfarniadau yn seiliedig ar dystiolaeth ymchwil gadarn.
- Gwnaeth y tîm gadw cyfrinachedd drwy beidio ag enwi'r sefydliadau neu'r unigolion a gymerodd ran.
- Mae'r holl staff NFER yr oedd ganddynt fynediad at ffolderi a data'r prosiect wedi cael gwiriadau'r Gwasanaeth Data a Gwahardd (DBS).
- Cadwyd yr holl ddata personol yn gyfrinachol ac ni chafodd ei ddatgelu i unrhyw un y tu allan i'r tîm ymchwil.